Cygnor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-2016 a Chynllun Strategol 2016-2017

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015–2016 a Chynllun Strategol 2016–2017

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015–2016 a Chynllun Strategol 2016–2017 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

*Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 26 Hydref 2016*

HC 734

© **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2016)**

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.nmc.org.uk

Print ISBN 9781474137515
Gwe ISBN 9781474137522

ID 21091608 10/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

Rhagair ........................................................................................................................ 2

Ein rôl............................................................................................................................. 5

Adolygiad o berfformiad 2015–2016 ............................................................................. 5

Cynllun Strategol 2016–2017....................................................................................... 16

Adolygiad ariannol ....................................................................................................... 19

Adroddiad cydnabyddiaeth .......................................................................................... 22

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon ................................................................................................................... 29

Datganiad llywodraethu blynyddol ............................................................................... 31

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ..................................................................................................................................... 44

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd ...... 46

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ..................................................................................................................................... 49

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2016..................................................................................... 50

Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016........... 51

Cysoni incwm net/(gwariant) â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu........... 51

Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo.................................................. 52

Nodiadau i’r Cyfrifon .................................................................................................... 53

The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010......... 82

**Rhagair**

Rheoleiddiwr gofal iechyd arweiniol, arloesol a deinamig - dyna'r uchelgais a nodwyd gennym yn ein Strategaeth 2015–2020. Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod yn gwneud cynnydd da yn hyn o beth.

Mae ailddilysu - y newid mwyaf i'r ffordd rydym yn rheoleiddio - eisoes yn profi i fod yn llwyddiant. Gall cleifion a'r cyhoedd fod yn fwy hyderus bod nyrsys a bydwragedd yn rhoi gofal da a diogel. Mae hefyd wedi trawsnewid ein cydberthynas â'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio. Ochr yn ochr â phenderfynoldeb ac ymrwymiad y Cyngor a'n staff, bu cymorth a chydweithrediad cyson ein holl randdeiliaid yn y pedair gwlad yn allweddol i'r llwyddiant hwn hefyd.

Yn yr un modd, mae ymateb cadarnhaol nyrsys a bydwragedd i'n Cod ymarfer newydd yn dyst i'w proffesiynoldeb dyddiol. Mae'r Cod yn adlewyrchu disgwyliadau cleifion a'r cyhoeddi, yn ogystal â'r proffesiynau, mewn modd clir, modern a dealladwy.

Un datblygiad pwysig arall yn 2015-2016 oedd y gwaith a wnaethom gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i gyhoeddi'r canllawiau ar y cyd ar gyfer meddygon, nyrsys a bydwragedd ar y ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol: bod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith. Caiff gofal ei ddarparu gan dimau amlasiantaethol ac amlbroffesiynol, ac felly mae'n amlwg mai'r ffordd ymlaen ar gyfer y dyfodol fydd cydweithredu i ddatblygu a chyflwyno addysg a safonau. Bydd rhaglen addysg bellgyrhaeddol y Cyngor, y cytunwyd arni ym mis Mawrth 2016, yn ystyried cyfleoedd o'r fath ac yn arwain y ffordd o ran gosod safonau a fydd yn paratoi nyrsys a bydwragedd y dyfodol i roi gofal diogel ac effeithiol.

Mae heriau eraill o'n blaenau, fel cynlluniau ar gyfer rôl nyrsio newydd a newidiadau i drefniadau rheoleiddio bydwreigiaeth. Er na ellir rhagweld eto beth fydd canlyniadau tymor hwy pleidlais y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, gellir rhoi sicrwydd i'r holl nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr a gafodd eu hyfforddi yn yr UE na fydd unrhyw effaith uniongyrchol a bod y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth roi gofal o ansawdd uchel i gleifion yn y DU yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

Er bod y tirlun gofal iechyd yn newid yn gyflym, nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein gwaith rheoleiddio wedi newid yn yr un modd. Mae'n hen bryd cael trafodaeth ynghylch diben rheoleiddio a diwygiadau radical ac edrychwn ymlaen at gyfrannu at gynigion y Llywodraeth yn y maes hwn.

Yn y cyfamser, rydym yn ymrwymedig i amddiffyn y cyhoedd mor effeithiol ag y gallwn. Mae'r Cyngor wedi dechrau rhaglen gyffrous i'n helpu i drawsnewid i fod yn rheoleiddiwr deallus a dynamig fel y rhagwelir yn ein strategaeth a rhoi gwell gwerth am arian.

Mae ein cyflawniadau eleni yn profi ein bod yn barod i ateb yr heriau hyn a bod gennym y gallu i wneud hynny. Hoffem ddiolch i aelodau'r Cyngor, staff y Cyngor a phawb sy'n gweithio i ni ac ar y cyd â ni, am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u hymrwymiad parhaus i amddiffyn y cyhoedd.

Y Fonesig Janet Finch
Cadeirydd, NMC
13 Hydref 2016

Jackie Smith
Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC
13 Hydref 2016

## Ein rôl

1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol i Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ein rôl yw amddiffyn y cyhoedd ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn sicrhau budd i'r cyhoedd. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.

2 Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

2.1 Cadw cofrestr o bob nyrs a bydwraig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru.

2.2 Pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys a bydwragedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd.

2.3 Cymryd camau i ymdrin ag unigolion yr amheuir eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn ansawdd a safonau gofal a roddir gan nyrsys a bydwragedd.

3 Ein rôl ers y dechrau fu amddiffyn y cyhoedd; fodd bynnag, amlygwyd hyn hyd yn oed yn fwy gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015. O ganlyniad, mae gennym amcan statudol cyffredinol newydd, sef amddiffyn y cyhoedd, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol:

3.1 Amddiffyn, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.

3.2 Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

3.3 Hybu a chynnal safonau proffesiynol priodol ac ymddygiad aelodau'r proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth.

4 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn cynnal adolygiad o'n perfformiad bob blwyddyn. Roeddem yn falch bod adroddiad PSA a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 wedi cydnabod gwelliannau sylweddol yn ein perfformiad a dyma oedd yr adroddiad mwyaf cadarnhaol a dderbyniwyd yma, gan iddo nodi fod nifer o Safonau Rheoleiddio Da ychwanegol wedi'u bodloni.

## Adolygiad o berfformiad 2015–2016

5 Ym mis Mawrth 2015, cytunodd y Cyngor ar ein *Strategaeth 2015-2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid.* Mae'n nodi ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr gofal iechyd deinamig ac arweiniol sy'n amddiffyn y cyhoedd gan roi gwerth da i gofrestrwyr am y ffioedd a delir ganddynt.

6 Mae ein Strategaeth yn nodi ein pedair blaenoriaeth ddatblygu strategol er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau, sef:

6.1 Rheoleiddio effeithiol

6.2 Defnyddio gwybodaeth

6.3 Cydweithredu a chyfathrebu

6.4 Sefydliad effeithiol

7 Mae ein *Cynllun corfforaethol 2015–2016* yn nodi ein hymrwymiadau o dan bob blaenoriaeth strategol i ddechrau gwneud y gwelliannau a fydd yn ein helpu i gyflawni ein strategaeth.

**Blaenoriaeth strategol 1: Rheoleiddio effeithiol**

Mae'n rhaid i ni gyflawni ein swyddogaethau rheoliadol statudol craidd yn gyson dda er mwyn diogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder y cyhoedd. Byddwn yn parhau i wella ein swyddogaethau craidd, gan ganolbwyntio ar gyflymder, gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd ein penderfyniadau. At hynny, bydd angen i ni ymateb i ofynion newydd a newid deddfwriaethol.

**Ailddilysu**

8 Gwnaethom lansio'r broses ailddilysu yn llwyddiannus, sef y newid mwyaf i'r ffordd rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn ein hanes. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i bob nyrs a bydwraig ar ein cofrestr ddangos yn rheolaidd y gallant roi gofal mewn modd diogel, effeithiol a phroffesiynol. Mae ailddilysu yn gosod amddiffyn y cyhoedd wrth wraidd y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth ac mae'n helpu nyrsys a bydwragedd i ddatblygu'n barhaus a myfyrio ar eu hymarfer drwy gydol eu gyrfaoedd. Mae'n cyflawni'r ymrwymiad a wnaed gennym mewn ymateb i adroddiad Syr Robert Francis CF ar y methiannau yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford (Chwefror 2013).

9 Bydd yn rhaid i bob nyrs a bydwraig ar ein cofrestr ailddilysu dros y tair blynedd nesaf. Mae'r ymateb brwdfrydig a chadarnhaol a gafwyd i'r broses ailddilysu yn glod i'r proffesiynau sydd, ynghyd â Phrif Swyddogion Nyrsio'r pedair gwlad, cyflogwyr a phartneriaid eraill, wedi chwarae rhan allweddol wrth ein helpu i gyflwyno model sy'n dryloyw, yn gymesur ac yn amddiffyn y cyhoedd yn well.

10 Rydym yn ymrwymedig i gyhoeddi gwybodaeth reolaidd am y ffordd y mae'r broses ailddilysu yn gweithio a byddwn yn cynnal gwerthusiad annibynnol drwy gydol y cylch tair blynedd cyntaf.

**Y Cod: Safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd**

11 Mae'r Cod newydd yn ganolog i'r broses ailddilysu. Cafodd y Cod newydd ei lansio ym mis Ionawr 2015 a daeth i rym ym mis Ebrill 2015, gan nodi'r hyn a ddisgwylir gan bob nyrs a bydwraig. Mae'r Cod newydd wedi cael ymateb cadarnhaol iawn gan y proffesiynau.

12 Un o hanfodion y Cod yw'r gofyniad i nyrsys a bydwragedd fod yn agored a gonest. Mae angen i nyrsys, bydwragedd a meddygon gael eu cefnogi gan ddiwylliant gwaith lle gallant ddysgu o gamgymeriadau a theimlo'n gyfforddus rhoi gwybod am ddigwyddiadau a allai fod wedi peri niwed. Cafodd ein canllawiau ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar y ddyletswydd gonestrwydd gyffredinol ar gyfer meddygon, nyrsys a bydwragedd eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2015 ac

maent yn rhoi cyngor ymarferol ar y ddyletswydd gyffredin i fod yn dryloyw ac yn onest gyda chleifion. Ochr yn ochr â'r rhain, gwnaethom gyhoeddi nifer o astudiaethau achos sy'n dangos sut y dylai'r ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol gael ei defnyddio mewn amrywiol o leoliadau.

13 Ar gyfer y Cod a'r broses ailddilysu, cynhaliwyd ymgyrchoedd ymgysylltu a chyfathrebu mawr a amlinellir ym mharagraffau 47 i 50.

**Addysg**

14 Mae ein strategaeth yn rhoi addysg wrth wraidd ein gwaith rheoleiddio. Mae sicrhau bod nyrsys a bydwragedd wedi ymbaratoi ar gyfer y dyfodol yng nghyd-destun amgylchedd gofal sy'n newid yn gyflym yn hanfodol i'n rôl o amddiffyn y cyhoedd. Eleni, bu pwyslais mawr ar addysg a hyfforddiant, a fydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf.

15 Ar ôl cyhoeddi adolygiad 'The Shape of Caring' (Mawrth 2015) ar addysg nyrsio a hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr gofal yn y dyfodol yn Lloegr, comisiynodd y Cyngor adolygiad i asesu'r goblygiadau, gan gadw mewn cof y rôl rydym yn ei chwarae ledled y DU a phwysigrwydd defnyddio dull gweithredu sy'n cynnwys y pedair gwlad, a llywio unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.

16 Gan adeiladu ar waith a wnaed eisoes yn ystod y flwyddyn, cafodd ein cynllun addysg strategol newydd ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2016. Mae'n nodi'r blaenoriaethau allweddol canlynol ar gyfer 2016–2017 a thu hwnt: datblygu safonau hyfedredd yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer nyrsys a bydwragedd y dyfodol, fframwaith addysg newydd ac adolygiad annibynnol o'r ffordd y gellid sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol.

17 Penododd y Cyngor y Fonesig Jill Macleod Clark i arwain y gwaith o ddatblygu'r canlyniadau a'r cymwyseddau y bydd eu hangen ar nyrsys cofrestredig yn y dyfodol yn unol â Strategaeth 2015–2020 NMC. Fel rhan o'r gwaith hwn, cafwyd mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid o'r pedair gwlad gan gynnwys nyrsys cofrestredig, myfyrwyr nyrsio, addysgwyr nyrsio a chynrychiolwyr cleifion. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid ledled y DU wrth i ni fwrw ymlaen â'n gwaith ym maes addysg.

18 Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd yr Adran Iechyd gynlluniau i gyflwyno rôl newydd ar gyfer nyrsys cyswllt, sydd rhwng cynorthwyydd gofal iechyd a nyrs gofrestredig â gradd. Y Senedd fydd yn penderfynu p'un a ddylai rôl o'r fath gael ei rheoleiddio ond rydym wedi gwneud rhywfaint o waith i asesu'r goblygiadau posibl pe gofynnir i ni dderbyn y cyfrifoldeb hwn.

**Sicrhau ansawdd addysg ac awdurdodau goruchwylio lleol**

19 Yn ystod 2015–2016, gwnaethom ailwampio a chyhoeddi ein fframwaith ansawdd ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth ac awdurdodau goruchwylio lleol, gan adlewyrchu adborth gan brifysgolion ac adolygwyr lleyg.

20 Gwnaethom barhau i ddangos ein bod yn ymateb yn rhagweithiol i bryderon am ddiogelwch cleifion drwy gynnal adolygiad eithriadol o addysg gyn-gofrestru ar gyfer bydwreigiaeth a nyrsio oedolion ac iechyd meddwl a goruchwyliaeth statudol

ym Mangor. Gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Hydref 2015 a gweithio'n agos gyda sefydliadau perthnasol a rhanddeiliaid i wella'r sefyllfa ac atgyfnerthu trefniadau amddiffyn y cyhoedd. Rydym yn parhau i fonitro cynnydd.

21 Gwnaethom ddychwelyd i Guernsey yn 2015, fel dilyniant i'r adolygiad eithriadol a gynhaliwyd o awdurdod goruchwylio lleol Guernsey yn 2014. Gwnaethom gyhoeddi adroddiadau ar ein hailymweliad ym mis Rhagfyr 2015 a nodwyd cynnydd mewn nifer o feysydd, ond cydnabuwyd hefyd fod angen rhagor o welliannau.

22 Fel y nodir ym mharagraff 16, rydym yn bwriadu edrych o'r newydd ar y ffordd y dylai'r NMC fynd ati i sicrhau ansawdd yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried newidiadau yn y tirlun addysg ehangach, gan gynnwys newidiadau i brosesau sicrhau ansawdd yn y sector prifysgolion, newidiadau i drefniadau ariannu a'r angen i weithio'n agosach gyda rheoleiddwyr systemau yn y pedair gwlad.

**Bydwreigiaeth**

23 Parhaodd y Pwyllgor Bydwreigiaeth i roi cyngor i'r Cyngor ar faterion bydwreigiaeth drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys mewn perthynas â'r adolygiadau eithriadol y cyfeiriwyd atynt uchod.

24 Ym mis Gorffennaf 2015, cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai'n gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoleiddio bydwreigiaeth, gan gynnwys diddymu goruchwyliaeth statudol. Gwnaeth y Cyngor gais am hyn yn dilyn cyfres o adroddiadau beirniadol ar fethiannau gofal yn Ysbytai Athrofaol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Bae Morecambe ac adolygiad annibynnol gan The King's Fund, a gadarnhaodd fod gwendidau strwythurol yn y ddeddfwriaeth gyfredol.

25 Er na chafodd y penderfyniad ei groesawu'n unfrydol gan y gymuned bydwreigiaeth, credwn yn gryf y bydd y newidiadau hyn yn helpu i amddiffyn y cyhoedd yn well. Rydym yn ymrwymedig i barhau i weithio gyda'r Adran Iechyd a'r pedwar Prif Swyddog Nyrsio i helpu i drosi'r trefniadau goruchwylio bydwragedd yn llwyddiannus ym mhedair gwlad y DU. Nid oes amheuaeth bod goruchwyliaeth glinigol dda yn hanfodol i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

26 Gwnaethom sefydlu Panel Bydwreigiaeth dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, a oedd yn cynnwys Prif Weithredwr Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Prif Swyddogion Nyrsio'r pedair gwlad ac uwch gyfranwyr eraill o'r sector, i ganolbwyntio ar reoleiddio bydwreigiaeth ar ôl newid y ddeddfwriaeth.

27 Byddwn yn parhau i ymgysylltu a chyfathrebu â'r gymuned bydwreigiaeth, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau i feithrin dealltwriaeth o'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig a'u goblygiadau ac i gefnogi proses bontio esmwyth.

28 Cynhaliwyd adolygiadau o wasanaethau mamolaeth ledled y DU yn 2015–2016 a byddwn yn ystyried unrhyw argymhellion sy'n effeithio ar ein haddysg a'n hyfforddiant.

**Cofrestr**

29 Ar 31 Mawrth 2016, roedd 692,550 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr, y gofrestr broffesiynol fwyaf yn y DU. Mae cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwragedd y caniateir iddynt ymarfer yn gyfreithlon yn y DU yn hanfodol i amddiffyn y cyhoedd. Dim ond y sawl sy'n dangos eu bod yn cyrraedd ein safonau proffesiynol a all gael eu cynnwys ar ein cofrestr, neu aros arni. Mae ein prosesau cofrestru yn sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud cais i ymuno â'r gofrestr y cymwysterau cywir a, lle bo angen, byddwn yn eu profi er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r broses ailddilysu yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys a bydwragedd ddangos eu bod yn dal i fod yn addas i ymarfer. Gall y cyhoedd a chyflogwyr ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein i gadarnhau statws cofrestriad nyrs neu fydwraig ar unrhyw adeg.

30 Gwnaethom weithredu gofynion newydd Cyfarwyddeb 2005/36/EC yr UE ar gydnabod cymwysterau proffesiynol yn llwyddiannus, gan gynnwys rheolaethau iaith newydd ym mis Ionawr 2016. O dan y darpariaethau newydd hyn, gallwn bellach sicrhau bod nyrsys a bydwragedd sydd wedi'u hyfforddi mewn rhannau eraill o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn meddu ar y sgiliau Saesneg angenrheidiol i gofrestru i ymarfer yn y DU. Gwnaethom hefyd gyflwyno'r Cerdyn Proffesiynol Ewropeaidd i gydnabod cymwysterau a system rybuddio i hysbysu Aelod-wladwriaethau eraill am gosbau o ran ffitrwydd i ymarfer a gyflwynwyd i nyrsys a bydwragedd. Gwnaethom weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill, adrannau llywodraeth a'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau bod mesurau diogelu allweddol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd yn cael eu cynnal a'u gwella.

31 Aeth NMC Online, a gyflwynwyd ar ddiwedd 2014 ac y gall nyrsys a bydwragedd ei ddefnyddio i ddiweddaru ac ailddilysu eu cofrestriad, o nerth i nerth ac roedd dros 88 y cant o nyrsys a bydwragedd wedi cofrestru i'w ddefnyddio erbyn mis Mawrth 2016.

32 Yn 2015–2016 gwnaethom brosesu dros 30,000 o geisiadau cychwynnol i gofrestru (28,000 yn 2014–2015). O'r rhain:

32.1 roedd 19,133 (20,334 yn 2014–2015) gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn y DU

32.2 roedd 9,389 (7,744 yn 2014–2015) gan ymgeiswyr a hyfforddwyd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

32.3 roedd 2,145 (665 yn 2014–2015) gan ymgeiswyr a hyfforddwyd y tu allan i'r AEE

33 Gwnaethom gyflwyno prawf cymhwysedd newydd ar gyfer ymgeiswyr o dramor (y tu allan i'r AEE) o 1 Hydref 2014. Mae'r broses hon yn cynnwys prawf gwybodaeth ar-lein cychwynnol a ddilynir gan asesiad ymarferol mewn canolfan brawf yn y DU. Erbyn diwedd 2015–2016, roedd 516 o ymgeiswyr wedi cwblhau'r broses.

34 Gwnaethom gwblhau 97.4 y cant o geisiadau cofrestru o fewn 10 diwrnod, gan ragori ar ein targed (95 y cant), gyda 98.7 y cant yn cael eu cwblhau o fewn 30 diwrnod.

35 Yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i ychwanegu nyrsys at y Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder, gwelsom gynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau gan nyrsys a oedd wedi cymhwyso y tu allan i'r AEE. Gwelsom gynnydd sylweddol hefyd yn nifer y ceisiadau o'r AEE cyn i'r newidiadau i reolaethau iaith ddod i rym. Er i ni gynllunio ar gyfer rhywfaint o gynnydd, roedd y niferoedd yn uwch na'r disgwyl a arweiniodd at ddirywiad mewn perfformiad yn erbyn ein targed yn ystod chwarter olaf y flwyddyn. O ganlyniad, ar gyfer y flwyddyn gyfan, gwnaethom brosesu 85.7 y cant o geisiadau o fewn ein targed o 70 diwrnod, ychydig yn is na'n targed o 90 y cant.

36 Ar gyfartaledd, deliodd ein canolfan gyswllt â 1,635 o alwadau bob dydd a gynyddodd i 1,916 (3,000 yn 2014–2015) ar gyfnodau cofrestru ac adnewyddu brig.

**Addasrwydd i ymarfer**

37 Mae ein hadroddiad blynyddol manylach ar addasrwydd i ymarfer yn nodi sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau statudol. Yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi'r prif ddatblygiadau yn y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

38 Mae ein deddfwriaeth wedi dyddio ac mae angen gwneud diwygiadau radical iddi fel mater o frys. Rydym wedi parhau i weithio gyda llywodraethau yn y pedair gwlad a rheoleiddwyr eraill i ystyried y ffordd orau o sicrhau deddfwriaeth effeithiol a modern. Roeddem yn falch ein bod wedi llwyddo, drwy newidiadau deddfwriaethol, i wneud rhai newidiadau i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd camau cychwynnol ein proses addasrwydd i ymarfer, drwy gyflwyno Archwilwyr Achos eleni.

39 Cyflwynwyd swyddogaeth yr Archwilydd Achos yn llwyddiannus i'r broses addasrwydd i ymarfer. Gwnaeth Archwilwyr Achos 3,245 o benderfyniadau yn ystod y flwyddyn, gyda 56 y cant ohonynt yn benderfyniadau lle nad oedd gan y cofrestrydd achos i'w ateb. Rydym wedi bod yn monitro a gwerthuso'r effaith yn anffurfiol ac mae'r canlyniadau yn dangos y defnyddir rhesymeg glir a chadarn. Gwnaethom hefyd gyflwyno pŵer newydd i adolygu penderfyniadau sy'n datgan nad oes achos i'w ateb.

40 Gwnaethom wneud gwelliannau i gamau cynnar y broses gwneud penderfyniadau sy'n golygu y gallwn nodi a chau achosion nad ydynt yn codi pryderon o ran amddiffyn y cyhoedd cyn gynted â phosibl a thargedu ein hadnoddau ar ymchwilio i'r achosion hynny lle mae angen camau rheoleiddio yn unig.

41 Yn ystod 2015–2016 gwnaethom lansio ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr. Lluniwyd y gwasanaeth hwn i'w gwneud yn haws rhannu gwybodaeth, gwella dealltwriaeth o'n prosesau a helpu cyflogwyr i benderfynu pa bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer a ddylai gael eu hatgyfeirio atom a pha rai y mae'n well ymdrin â hwy yn lleol. Cafodd y gwasanaeth ymateb cadarnhaol. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn dechrau dadansoddi data o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a lleoliadau cyflogwyr fel y gellir cyflwyno ymyriadau ehangach sy'n seiliedig ar risg ar gam cynharach er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn well.

42 Gwnaethom barhau i sicrhau bod yr achosion mwyaf difrifol, sy'n peri risg bosibl i ddiogelwch y cyhoedd, yn cael eu trin yn gyflym. Unwaith eto, gwnaethom ragori

ar ein targed i sicrhau 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod, gan berfformio'n gyson drwy gydol y flwyddyn.

43 Gwnaethom gwblhau 78 y cant o achosion o fewn 15 mis, sy'n llawer gwell na'n disgwyliad gofynnol, sef 65 y cant.

**Blaenoriaeth strategol 2: Defnyddio gwybodaeth**

Drwy ddefnyddio tystiolaeth o ddata a gwaith ymchwil yn well byddwn yn meithrin dealltwriaeth o'r hyn a wnawn, gan ein helpu i fod yn fwy effeithiol, tryloyw a chymesur. Fel cam cyntaf, mae angen i ni sicrhau bod ein systemau yn helpu i wella'r broses o gasglu a defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill.

44 Rydym yn glir ynghylch pwysigrwydd gwella'r broses o gasglu a defnyddio ein data ein hunain a gwybodaeth o ffynonellau eraill, yn ogystal â rhannu'r hyn a wyddom â rheoleiddwyr eraill a sefydliadau partner perthnasol er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd. Ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr, rydym wedi cymryd rhai camau cychwynnol i sefydlu prosesau a systemau newydd i gasglu gwybodaeth am risg o ffynonellau gwahanol, ei dadansoddi a gweithredu arni.

45 Gwnaethom orffen asesu a mapio ein data a dechrau rhaglen glanhau data fel gwaith paratoi hanfodol ar gyfer casglu, cofnodi a rhannu data a gwybodaeth yn y dyfodol. Rydym wedi dechrau darparu gwybodaeth a data cyson i gefnogi prosiectau allweddol. Gwnaethom gynnal nifer o weithgareddau ymchwil a dadansoddi er mwyn helpu i wella'r wybodaeth a ddaw o ddata addasrwydd i ymarfer.

46 Mae gwneud cynnydd o ran data, gwybodaeth a gwaith ymchwil yn her o hyd a byddwn yn datblygu ein gallu strategol yn y maes hwn yn 2016–2017.

**Blaenoriaeth strategol 3: Cydweithredu a chyfathrebu**

Byddwn yn parhau i wella ansawdd ein cydberthnasau er mwyn helpu i gyflawni ein diben cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd. Er mwyn helpu i wneud hyn byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cyffredinol. Bydd ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a chyflogwyr yn flaenoriaeth. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cyflawni nodau cyffredin.

47 Rydym wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu helaeth ar draws lleoliadau ac yn y pedair gwlad drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys dau ymgyrch cyfathrebu mawr mewn perthynas â'r Cod newydd ac ailddilysu.

48 Fel rhan o'n hymgyrch i hyrwyddo'r Cod newydd, anfonwyd copi at bob nyrs a bydwraig ar y gofrestr. I gyd-fynd â'r Cod, lluniwyd cyhoeddiadau wedi'u teilwra ar gyfer cyflogwyr a chleifion a'r cyhoedd. Gwnaethom hyrwyddo'r Cod diwygiedig mewn cyfres o ddigwyddiadau allanol a chynadleddau, gwnaethom gyfathrebu yn

ei gylch drwy ein pedwar cylchlythyr penodol ar gyfer cynulleidfaoedd allanol a gwnaethom barhau i gyfathrebu drwy ein gohebiaeth am ailddilysu. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r Cod diwygiedig, ochr yn ochr â'n gohebiaeth barhaus ynghylch ailddilysu yn ystod 2016–2017.

49 Cafodd cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ar gyfer ailddilysu ei ddatblygu gyda mewnbwn gan randdeiliaid ledled y DU a chafodd adnoddau dynodedig eu defnyddio i gefnogi gwaith gyda rhanddeiliaid a darparu sianel gyfathrebu effeithiol ac uniongyrchol er mwyn cefnogi gwaith ar y cyd ledled y DU. Roedd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

49.1 Llunio canllawiau a ffurflenni ailddilysu hawdd eu defnyddio ar gyfer cofrestryddion, cyflogwyr a chadarnhawyr sy'n rhan o'r broses ailddilysu.

49.2 Lansio rhaglen gyfathrebu ddigidol, gyda negeseuon e-bost wedi'u teilwra, er mwyn helpu nyrsys a bydwragedd unigol

49.3 Lansio microwefan ddilysu newydd a oedd yn cynnwys astudiaethau achos, ffilmiau a chynghorion defnyddiol.

49.4 Gweithdai hyfforddi ar gyfer cofrestryddion a chyflogwyr bach a gynhaliwyd gan gyflenwr bach (Miad) a'r NMC.

50 Mae llwyddiant yr ymgyrchoedd hyn, a fydd yn parhau dros y blynyddoedd nesaf, wedi rhoi model cadarn ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, cyflogwyr, addysgwyr a'r cyhoedd ynghylch y newidiadau sydd i ddod, fel y newidiadau ym maes bydwreigiaeth.

**Cydweithredu ar draws yr amgylchedd iechyd ehangach**

51 Mae ein strategaeth yn cydnabod ein bod yn gweithredu fel rhan o system ehangach o reoleiddwyr a chyrff eraill sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd a diogelwch mewn lleoliadau iechyd a gofal. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid yn y pedair gwlad a chyfrannu at ystod eang o fentrau a grwpiau yn rhan annatod o'n gwaith. Rydym hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r cyrff proffesiynol ac undebau ac yn ymgysylltu'n eang â gweithwyr proffesiynol ar bob lefel, o Gyfarwyddwyr Nyrsio a Phenaethiaid Bydwreigiaeth i staff rheng flaen a myfyrwyr, yn ogystal ag addysgwyr a chyflogwyr.

52 Cyfarfu'r Grŵp Cynghori Cleifion a'r Cyhoedd deirgwaith yn ystod y flwyddyn. Gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am fentrau amrywiol a gofynnwyd am ei farn ar y ffordd orau o atgyfnerthu ac ymestyn ein gwaith ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, er mwyn sicrhau cyrhaeddiad gwirioneddol ym mhedair gwlad y DU. Yn 2016–2017 rydym yn bwriadu gwella'r trefniadau sydd ar waith gennym i glywed barn cleifion a'r cyhoedd drwy rwydweithiau newydd yn y pedair gwlad a defnyddio'r farn hon i lywio a chyfeirio ein gwaith.

53 Cyfarfu ein Grŵp Cynghori Strategol Proffesiynol, sy'n dod ag uwch nyrsys a bydwragedd o amrywiaeth o leoliadau ymarfer ledled y DU at ei gilydd, bedair gwaith yn ystod 2015–2016. Gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ein gwaith ailddilysu a newidiadau i'r trefniadau goruchwylio statudol ar gyfer

bydwragedd, yn enwedig sut roeddem yn cyfathrebu â'r proffesiynau yn y pedair gwlad.

54 Bu penodi ein dau uwch gynghorydd proffesiynol – un nyrs ac un fydwraig – yn ddefnyddiol gan wella'r cyngor proffesiynol lefel uchel dynodedig sydd ar gael i ni er mwyn cefnogi ein gwaith rheoleiddio. Darparodd y cynghorwyr arbenigedd gwerthfawr gan gyflwyno persbectif cyfoes a phroffesiynol lefel uchel i'n gwaith.

55 Ym mis Mehefin 2015, gwnaethom gynnal derbyniad seneddol ar y cyd â rheoleiddwyr eraill ym Melffast lle cawsom bresenoldeb y Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd ac aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon. Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom gynnal rhan yng nghynhadledd reoleiddio flynyddol yr Alban, ar y cyd â rheoleiddwyr eraill.

56 Ar y cyd â chyrff cyfatebol yn Iwerddon a Sbaen, gwnaethom ailsefydlu rhwydwaith awdurdodau nyrsio cymwys Ewrop er mwyn trafod materion sydd o ddiddordeb i bob un ohonom. Gwnaethom gynnal y cyfarfod cyntaf ym mis Medi 2015 ac roedd 13 o Aelod-wladwriaethau yn bresennol.

**Blaenoriaeth strategol 4: Sefydliad effeithiol**

Byddwn yn datblygu ein systemau, ein hadnoddau a'n diwylliant ymhellach er mwyn ein helpu i ddatblygu'n rheoleiddiwr deallus, cydweithredol a blaengar.

57 Gwnaethom ddechrau prosiect corfforaethol i ymsefydlu safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid Swyddfa'r Cabinet. Gwnaethom gyflwyno amcanion o ran ansawdd a gwasanaeth cwsmeriaid fel rhan annatod o'n system datblygu a pherfformiad unigol ar gyfer staff. Penodwyd tîm o hyrwyddwyr gwasanaeth cwsmeriaid ar draws y sefydliad a gwnaethom gynnal asesiad cychwynnol yn erbyn y Safon er mwyn nodi meysydd i'w gwella, sy'n cael sylw drwy gynlluniau gweithredu lleol.

58 Yn 2015–2016, gwnaethom roi rhaglen gwella TGCh sylweddol ar waith er mwyn cefnogi ein swyddogaethau craidd yn fwy effeithlon a darparu sail gadarn ar gyfer gwneud rhagor o newidiadau gweddnewidiol.

### Staff ac adnoddau dynol

59 Ar ôl adolygiad annibynnol o'n gallu sefydliadol a gynhaliwyd yn 2015–2016, caiff strwythur sefydliadol ac arwain uwch newydd ei gyflwyno o fis Ebrill 2016. Cyn hynny, cafodd rôl newydd y Prif Swyddog Gweithredu ei chyflwyno o fis Medi 2015 er mwyn arwain gweithrediadau mewnol yr NMC a llywio gwelliannau i berfformiad y sefydliad.

60 Bydd gwaith yn cael ei wneud yn 2016 i ddatblygu Strategaeth Pobl, a chynnal adolygiad manylach o rolau, sgiliau a strwythurau.

61 Roedd trosiant staff wedi amrywio yn ystod y flwyddyn ac roedd yn cyfateb i 23.5 y cant ym mis Mawrth 2016 (24.5 y cant ym mis Mawrth 2015). O'r rheini a roddodd

reswm, camu ymlaen yn eu gyrfa neu newid gyrfa oedd y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros adael.

62 Cawsom gyfradd ymateb ardderchog o 82 y cant i'n harolwg staff blynyddol yn 2015, gydag ymgysylltiad staff yn cynyddu i 65 y cant (64 y cant yn 2014). Gwelwyd gwelliant hefyd yn nifer y staff a ddywedodd eu bod yn falch o weithio i'r NMC ac y byddent yn ei argymell fel lle da i weithio. Mae adborth wedi'i gynnwys mewn cynlluniau gweithredu a gaiff eu rhoi ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad.

63 Roedd ein rhaglen Dysgu a Datblygu eleni yn cynnwys ystod o weithgareddau i helpu i ddatblygu gallu ym mhob maes. Dengys gwaith gwerthuso cychwynnol fod y rhaglen wedi cael ymateb cadarnhaol a'i bod yn cael effaith. Byddwn yn datblygu'r rhaglen ymhellach yn 2016 er mwyn helpu i wneud trawsnewidiadau a rheoli newid.

**Adnoddau**

64 Gwnaethom barhau i fonitro a chofnodi cynnydd yn erbyn ein cynllun effeithlonrwydd tair blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2017. Yn 2015-2016 cafodd ein proses ar gyfer cofnodi ein henillion effeithlonrwydd ei chymeradwyo'n allanol gan KPMG a gytunodd ein bod, erbyn mis Mawrth 2016, wedi cyflawni £20 miliwn yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun, y gellir priodoli £9.9 miliwn ohono i 2015-2016. Cynhyrchwyd yr enillion effeithlonrwydd hyn drwy welliannau i'n proses addasrwydd i ymarfer; gan gynnwys newid mawr i'r ffordd rydym yn gweithredu, megis cynnal ymchwiliadau yn fewnol. Rydym yn disgwyl cyflawni £16 miliwn arall yn 2016–2017. Llwyddwyd i gynhyrchu arbedion ychwanegol drwy wneud penderfyniadau mwy effeithlon yn gynharach yn ystod ein proses addasrwydd i ymarfer ac yn ôl KPMG, mae'n debygol y bydd y rhain yn cyfateb i £10 miliwn dros y rhaglen dair blynedd, gan greu cyfanswm disgwyliedig o £46 miliwn erbyn mis Mawrth 2017.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

65 Ein nod yw hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau a chyflwyno ein gwasanaethau fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr. Mae ein strategaeth yn integreiddio ymrwymiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob thema strategol â blaenoriaeth. Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn monitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn ein cynllun gweithredu amcanion cydraddoldeb. Yn ystod 2015–2016 gwnaethom y canlynol:

65.1 Datblygu polisi ar addasiadau rhesymol yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn hygyrch i bobl ag anableddau

65.2 Defnyddio NMC Online i annog cofrestryddion i gwblhau ffurflenni monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ac erbyn mis Ebrill 2016, roedd 49 y cant wedi'u cwblhau. Bydd hyn yn helpu i wella gwaith dadansoddi data ynghylch cofrestryddion mewn prosiectau a gwaith ymchwil yn y dyfodol.

65.3 Adolygu ein canllawiau i staff ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu ein polisïau a'n gwasanaethau mewn ffordd gynhwysol.

65.4 Parhau i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth gorfodol fel rhan o'r broses sefydlu staff.

65.5 Comisiynu ymchwil i wella ein dealltwriaeth o ganlyniadau ar gyfer nyrsys a bydwragedd o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol er mwyn llywio'r paramedrau ymchwil.

66 Er i ni gymryd rhai camau pwysig yn 2015–2016, rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy o gynnydd o hyd yn y maes hwn a byddwn yn bwrw ymlaen â hyn yn 2016–2017.

**Rhyddid gwybodaeth a diogelu data**

67 Fel corff cyhoeddus rydym yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Yn 2015–2016 cafwyd tua 519 o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (400 yn 2014–2015) a mwy na 270 o geisiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data (300 yn 2014–2015) ac ymatebwyd i bob un o'r ceisiadau hynny. Gwnaed naw cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (pedair yn 2014–2015) dros y cyfnod hwn a dyfarnwyd o'n plaid yn achos pob un o'r cwynion hynny.

# Cynllun Strategol 2016–2017

68 Mae *Strategaeth 2015–2020: Rheoleiddio deinamig ar gyfer byd sy'n newid* yn nodi ein blaenoriaethau strategol a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein diben cyffredinol i amddiffyn y cyhoedd yn fwy effeithiol gan sicrhau ein bod yn cael mwy o effaith,

69 Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi'r gwaith allweddol y byddwn yn ei wneud yn 2016–2017 er mwyn sicrhau gwelliannau a fydd yn ein helpu i gyflawni ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2015-2020.

## Trawsnewid yr NMC

**Yn 2016–2017 byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Cynllunio, adnoddu a gweithredu ein rhaglen Drawsnewid. Bydd y rhaglen yn cwmpasu pob agwedd ar ein sefydliad, pobl a lleoliad, yn ogystal â gwella profiad ein cwsmeriaid.

**Ein sefydliad**

- Erbyn mis Hydref 2016, byddwn wedi diffinio siâp, maint a phrosesau busnes y sefydliad, a byddwn wedi cyhoeddi ein map trawsnewid.

**Ein pobl**

- Datblygu strategaeth Pobl sy'n nodi'r sgiliau, y galluoedd a'r diwylliant y bydd eu hangen ar y sefydliad nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn ystyried sut i ddenu, cadw, cefnogi a gwobrwyo pobl i gyflawni ein blaenoriaethau.
- Llunio cynllun manwl er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth Pobl a chyflawni allbynnau yn unol â'r cynllun hwnnw pan fydd yn gytûn.
- Cwblhau rhaglen hyfforddi rheolwyr beilot er mwyn meithrin gallu rheoli ymhlith ein rheolwyr lefel gyntaf. Yna byddwn yn gwerthuso ei heffeithiolrwydd a'r potensial i'w chyflwyno'n llawn.

**Ein lleoliad**

- Datblygu achos busnes llety llawn, gan nodi opsiynau wedi'u costio fel y gallwn wneud penderfyniadau ar lety a lleoliad yn y dyfodol erbyn mis Mawrth 2017.
- Ar y cyd â hynny, llunio cynllun trawsnewid i weithredu'r opsiwn a argymhellir yn yr achos busnes llety.

**Gwerth am arian**

- Cyflawni targed ymestynnol o 5 y cant yn erbyn y gyllideb gymeradwy (heb gynnwys arian a neilltuwyd at ddibenion trawsnewid) er mwyn sicrhau gwerth am arian, a gaiff ei fonitro a'i adrodd gennym.

## Rheoleiddio effeithiol

### Addysg

**Yn 2016–2017 byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Drafftio safonau newydd sy'n pennu'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar nyrs y dyfodol, yn barod ar gyfer ymgynghoriad a ddaw i ben yn 2017-2018.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r gwaith rydym yn ei wneud i ddatblygu safonau newydd.
- Comisiynu adolygiad sylfaenol annibynnol o sut y gellid sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth yn y dyfodol, gan arwain at set o opsiynau erbyn mis Mawrth 2017. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried y trefniadau newidiol o ran sicrhau ansawdd yn y sector addysg uwch yn fwy cyffredinol.

### Rheoleiddio bydwreigiaeth

**Yn 2016–2017 byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Parhau i gefnogi'r gwaith o drawsnewid goruchwyliaeth bydwragedd yn llwyddiannus ledled y DU.
- Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr er mwyn sicrhau bod gan randdeiliaid ddealltwriaeth glir o reoleiddio ar ôl y newid deddfwriaethol.
- Diweddaru ein polisïau, systemau a phrosesau ein hunain er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer canlyniadau newid deddfwriaeth ym maes rheoleiddio bydwragedd.

### Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestru

**Yn 2016–2017 byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Paratoi cynllun manwl fel ein bod yn barod i gyflwyno'r newidiadau pwysig i'n deddfwriaeth er mwyn sicrhau y gallwn ddatrys achosion addasrwydd i ymarfer yn y ffordd gywir ar yr adeg gywir. Bydd hyn yn cynnwys datblygu polisïau a phrosesau ar gyfer pwerau ychwanegol i Archwilwyr Achos a'r Pwyllgor Ymchwilio, a datblygu systemau a phrosesau i gefnogi'r newidiadau.
- Monitro effeithiolrwydd gweithredol ailddilysu yn ei flwyddyn weithredol llawn cyntaf a sicrhau gwelliant parhaus i'r broses a'n systemau.
- Ei gwneud yn haws i nyrsys a bydwragedd dalu eu ffi gofrestru drwy gyflwyno cyfleuster rhandaliadau chwarterol.
- Cynnal a pharhau i wella ein perfformiad rheoleiddio (fel y'i mesurir gan DPAau corfforaethol) drwy gydol y broses o drawsnewid.

## Defnyddio gwybodaeth

**Yn 2016–2017 byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Datblygu ein gallu strategol fel y gallwn gyfleu ein gofynion data a gwybodaeth.
- Penderfynu ym mha ymchwil y dylem fuddsoddi, a defnyddio'r canlyniadau i lywio ein gwaith.
- Erbyn mis Mawrth 2017 bod mewn sefyllfa lle gall ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ddechrau dadansoddi data o atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfer a lleoliadau cyflogwyr. Bydd hyn yn golygu y gall ymyriadau seiliedig ar risg ehangach wella diogelwch y cyhoedd ar gam cynharach.

## Cyfathrebu a chydweithio

Mae cyfathrebu wrth wraidd yr holl ymrwymiadau a wneir yn y cynllun corfforaethol hwn.

**Yn ogystal, yn 2016-2017 byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Hwyluso'r broses o glywed barn cleifion a'r cyhoedd drwy rwydweithiau newydd i'r cyhoedd a chleifion ledled y DU a defnyddio hyn i lywio ein gwaith.

## Adolygiad ariannol

70 Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd yr NMC i ganolbwyntio ar sefydlogrwydd ariannol gan fynd ati ar yr un pryd i gynnal mentrau sylweddol fel cyflwyno'r broses ailddilysu, Gwasanaethau Cyswllt Cyflogwyr a gofynion newydd Cyfarwyddeb 2005/36/EC yr UE ar gydnabod cymwysterau proffesiynol.

71 Mae'r NMC yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, gyda'r gwaith parhaus i ehangu arlwy NMC Online, atgyfnerthu trefniadau adfer ar ôl trychineb a datblygu system talu fesul cam a gaiff ei lansio yn 2016–2017.

72 Ym mis Hydref 2014, mewn ymateb i gynnydd yn ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer a'i gymhlethdod, penderfynodd y Cyngor gynyddu'r ffi gofrestru o £100 i £120 o fis Chwefror 2015. Arweiniodd hyn, ynghyd â chynnydd bach yn nifer y cofrestryddion, at incwm ychwanegol o £9.496 miliwn yn 2015–2016.

73 Roedd yr adnoddau net i mewn ar gyfer y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £8.123 miliwn (2014-2015: adnoddau net allan £9.832 miliwn).

74 Yn ystod y flwyddyn, cafwyd incwm o £80.265 miliwn (2014–2015: £73.204 miliwn) a oedd yn cynnwys incwm ffioedd gwerth £79.417 miliwn (2014–2015: £69.921 miliwn), grant o £0.205 miliwn gan yr Adran Iechyd (2014–2015: incwm grantiau gwerth £2.642 miliwn) ac incwm buddsoddiadau gwerth £0.643 miliwn (2014–2015: £0.641 miliwn).

75 Mae'r incwm grantiau gwerth £0.205 miliwn yn cynrychioli'r gyfran arian olaf gan yr Adran Iechyd i gefnogi gwelliannau i'r ffordd rydym yn asesu ac yn prosesu ceisiadau i ymuno â'r gofrestr o'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Mae'r broses gryfach ar waith erbyn hyn. Cafwyd cyfanswm o £2.654 miliwn o arian grant gan yr Adran Iechyd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2016.

76 Darparodd grant o £20 miliwn gan yr Adran Iechyd a dalwyd yn 2012-2013 adnoddau ariannol ychwanegol er mwyn helpu i gyflawni targed ein dangosydd perfformiad allweddol o ran dyfarnu addasrwydd i ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014; clirio'r ôl-groniad hanesyddol o achosion erbyn mis Rhagfyr 2014; a chyrraedd y lefel ofynnol o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Bodlonwyd holl amodau'r grant.

77 Talwyd y grant ym mis Ionawr 2013 a chafodd ei gydnabod yn llawn fel refeniw cyfyngedig yn 2012–2013. Mae'r grant wedi'i ryddhau mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, ac mae balans y cronfeydd cyfyngedig wrth gefn wedi lleihau'n unol â hynny bob mis. Ar ddechrau'r flwyddyn, £5.143 miliwn oedd balans cronfeydd cyfyngedig y grant a gafodd ei wario'n gyfan gwbl yn ystod y flwyddyn, a chafodd y swm terfynol ei gydnabod ym mis Rhagfyr 2015. Ceir rhagor o wybodaeth am arian grant a gwariant yn nodyn 24 i'r cyfrifon.

78 Yn ystod y flwyddyn gwariwyd cyfanswm o £76.344 miliwn (2014–2015: £75.530 miliwn). Dadansoddir hyn ymhellach yn nodiadau 5 i 9 i'r cyfrifon.

79 Gwnaed enillion actiwaradd o £4.202 miliwn ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig (2014–2015: colled o £7.506 miliwn).

80 Mae'r cronfeydd wrth gefn gwerth £41.113 miliwn ar 31 Mawrth 2016 yn cynnwys gwerth y brydles ar swyddfa'r NMC yn 23 Portland Place, sy'n cynnwys cymal defnydd cyfyngedig. Ailbrisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol ac roedd yn werth £17.185 miliwn.

81 Ar 31 Mawrth 2016 mae cyd-drafodaethau â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r posibilrwydd o ad-dalu treth incwm a thaliadau Yswiriant Gwladol a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â phanelwyr addasrwydd i ymarfer. Roedd hyn yn dilyn dyfarniad gan CThEM ym mis Ebrill 2012 fod CThEM bellach yn ystyried nad yw panelwyr addasrwydd i ymarfer yr NMC yn ddeiliaid swydd ac felly'n gyflogeion at ddibenion treth incwm ac Yswiriant Gwladol, ond ei fod yn ystyried eu bod yn hunangyflogedig. Nid yw swm yr ad-daliad posibl wedi'i gadarnhau eto ac felly nid yw wedi'i ddatgelu fel ased wrth gefn yn y datganiadau ariannol.

## Polisi cronfeydd wrth gefn

82 Mae'r NMC yn gweithredu polisi cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg, sy'n darparu y dylai lefel ein cronfeydd rhydd wrth gefn fod yn seiliedig ar asesiad o effaith ariannol y risgiau a wynebir gan yr NMC, ynghyd â swm i gwmpasu ein cyfran amcangyfrifedig o'r diffyg pensiwn. Cronfeydd rhydd wrth gefn yw'r rhan honno o gronfeydd digyfyngiad elusen sydd ar gael i'w gwario'n rhydd, hynny yw, heb gynnwys cronfeydd cyfyngedig, asedau sefydlog diriaethol a symiau a ddynodwyd ar gyfer gwariant hanfodol yn y dyfodol.

83 Caiff lefel y cronfeydd wrth gefn ei hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Cyngor. Wrth adolygu'r lefel, mae'r Cyngor yn ystyried yr asesiad diweddaraf a'r gwaith o fesur y prif risgiau, ac yn cytuno ar amrediad priodol y dylai'r elfen o'r cronfeydd wrth gefn sy'n seiliedig ar risg (a elwir hefyd yn 'gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd') gael ei chynnal oddi fewn iddo.

84 Ym mis Mawrth 2016, adolygodd y Cyngor y sefyllfa ddiweddaraf o ran y risgiau sy'n sail i'r polisi ar gronfeydd wrth gefn a chytunodd y dylid parhau i ddal cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn rhydd o fewn amrediad targed o £10 miliwn i £25 miliwn.

85 Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn ddigon ar gyfer blaenoriaethau gweithredu a gofynion cyfalaf gweithio'r NMC os bydd digwyddiad mawr annisgwyl, tra bod arian amgen yn cael ei sicrhau.

86 Roedd y cronfeydd wrth gefn digyfyngiad yn werth £41.113 miliwn ar 31 Mawrth 2016 (2014–2015: £27,468). Roedd y cronfeydd rhydd wrth gefn yn werth £17.913 miliwn (£3.471 miliwn ar 31 Mawrth 2015) ar ôl didynnu gwerth llyfr net asedau sefydlog o £23.200 miliwn (2014–2015: £23.997 miliwn).

87 Mae'r cronfeydd rhydd wrth gefn a oedd ar gael ar 31 Mawrth 2015 wedi'u hailddatgan i £3.471 miliwn, ar ôl iddynt gael eu cofnodi'n flaenorol fel £11.500 miliwn, o ganlyniad i newid yn null cyfrifo diffyg y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn unol â newidiadau i'r polisi cyfrifyddu a roddwyd ar waith yn ystod 2015–2016. Ceir rhagor o wybodaeth yn nodyn 27 i'r cyfrifon.

## Polisi buddsoddi

88 Mae gan yr NMC y pŵer i fuddsoddi ei gronfeydd dros ben fel y gwêl yn briodol er mwyn cynhyrchu incwm. Ar hyn o bryd mae gan yr NMC bolisi buddsoddi ffurfiol, sy'n golygu mai dim ond buddsoddiadau â risg isel, os o gwbl, y gellir eu gwneud.

89 Cedwir cronfeydd yr NMC yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pedwar o fanciau stryd fawr y DU. Yn 2015–2016 cynhyrchwyd refeniw o £0.643 miliwn o fuddsoddiadau (2014–2015: £0.641 miliwn).

## Asedau sefydlog

90 Rhoddir gwybodaeth am newidiadau i asedau sefydlog diriaethol yn nodyn 13 i'r cyfrifon. Cost yr ychwanegiadau i asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn oedd £2.730 miliwn.

**Y Fonesig Janet Finch**
**Cadeirydd**
**NMC**
**13 Hydref 2016**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**13 Hydref 2016**

## Adroddiad cydnabyddiaeth

91 Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan archwilwyr annibynnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

### Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor

92 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac ef sydd â'r awdurdod terfynol i wneud penderfyniadau fel y'i disgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr NMC. Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2015–2016 oedd y Fonesig Janet Finch, a olynodd Mark Addison CB ar 1 Ionawr 2015.

93 Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael cydnabyddiaeth am eu gwasanaeth ond maent yn cael lwfans blynyddol o £12,000 yn seiliedig ar y gofyniad bod aelodau yn treulio dau neu dri diwrnod y mis ar fusnes yr NMC. Mae'r Cadeirydd yn cael lwfans blynyddol o £48,000 yn seiliedig ar y gofyniad i dreulio dau ddiwrnod yr wythnos ar gyfartaledd ar fusnes yr NMC. Telir lwfans presenoldeb o £260 y dydd ar gyfer gweithgarwch hyfforddi a sefydlu cyn dechrau'r penodiad.

94 Tan 9 Mawrth 2015, roedd yn ofyniad cyfreithiol i Baneli Apeliadau Cofrestru gael eu cadeirio gan aelod o'r Cyngor. Câi aelodau'r cyngor lwfans dyddiol o £340, a ffi ddarllen ddyddiol o £290 lle'r oedd angen, am gyflawni'r rôl hon. Yn ystod 2014–2015, talwyd cyfanswm o £21,730 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor am gadeirio paneli apeliadau. Ni wnaed unrhyw daliadau o'r fath yn ystod 2015–2016.

95 Talwyd cyfanswm o £175,340 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2015–2016 (2014–2015: £189,730). Mae'r gostyngiad yn y lwfansau a dalwyd yn 2015–2016 i'w briodoli i leoedd gwag yn ystod y flwyddyn a'r ffaith bod y gofyniad i aelodau'r Cyngor gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru wedi'i ddiddymu. Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalen 23. Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig[1] i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2015–2016.

96 Telir lwfansau i aelodau'r Cyngor a'i bwyllgorau drwy gyflogres ar wahân lle y didynnir symiau ar gyfer treth incwm ac Yswiriant Gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth yr NMC i aelodau.

97 Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trethadwy. Mae'r NMC yn talu'r dreth incwm a'r Yswiriant Gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2015–2016, darparwyd £28,009 ar gyfer yr atebolrwydd hwn i dalu treth mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2014–2015: £22,771). Ni ellir datgelu'r dreth sy'n daladwy ar fuddiannau mewn da tybiedig ar gyfer pob aelod unigol o'r Cyngor, gan fod cyfrifiad cyffredinol yn cael ei baratoi yn seiliedig ar gyfanswm y treuliau a chyfran aelodau'r Cyngor ac aelodau partner pwyllgorau.

[1] Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

98 Mae treuliau yn cynnwys teithio, llety, prydau bwyd a chynhaliaeth a bydd aelodau'n cronni'r treuliau hyn wrth gyflawni eu dyletswyddau. Yn 2015–2016 hawliodd 11 o aelodau'r cyngor dreuliau neu cafodd eu treuliau eu talu'n uniongyrchol gan yr NMC.

99 Mae holl dreuliau'r aelodau wedi'u cynnwys yn y tabl canlynol. Mae'r treuliau a gafwyd gan aelodau yn amrywio'n fawr oherwydd y costau teithio a llety sy'n gysylltiedig â mynd i gyfarfodydd o gartrefi aelodau ledled y DU.

| **Aelodau'r Cyngor** | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2015–2016** (£) | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2014–2015** (£) | **Treuliau 2015–2016** (£) | **Treuliau 2014–2015** (£) |
|---|---|---|---|---|
| Mark Addison CB - Cadeirydd[2] | **0** | **36,000** | **-** | **1,472** |
| Y Fonesig Janet Finch - Cadeirydd[3] | **48,000** | **12,000** | **15,363**[4] | **137** |
| Yr Athro Judith Ellis MBE[5] | **-** | **3,000** | **-** | **616** |
| Maureen Morgan OBE[6] | **12,000** | **13,940** | **1,218** | **1,616** |
| Maura Devlin[7] | **12,000** | **16,535** | **6,711** | **7,326** |
| Quinton Quayle | **12,000** | **12,000** | **1,577** | **1,503** |
| Louise Scull | **12,000** | **12,000** | **2,686** | **3,478** |
| Carol Shillabeer[8] | **9,000** | **12,000** | **1,138** | **2,007** |
| Elinor Smith[9] | **-** | **9,970** | **-** | **3,025** |
| Amerdeep Somal[10] | **12,000** | **13,310** | **3,886** | **4,914** |
| Stephen Thornton CBE | **12,000** | **12,000** | **2,265** | **1,650** |
| Lorna Tinsley[11] | **12,340** | **24,345** | **3,174** | **8,212** |
| Dr Anne Wright CBE[12] | **12,000** | **12,485** | **-** | **16** |
| Lorna Jacobs | **0** | **145**[15] | **-** | **-** |
| Robert Parry[13] | **11,000** | **0** | **4,185** | **-** |
| Karen Cox[14] | **11,000** | **0** | **1,608** | **-** |

100 Mae aelodau partner, sef aelodau pwyllgorau nad ydynt yn aelodau'r Cyngor, yn cael lwfans presenoldeb dyddiol o £260 a threuliau teithio rhesymol.

[2] Cadeirydd tan 31 Rhagfyr 2014.
[3] Penodwyd yn Gadeirydd y Cyngor o 1 Ionawr 2015.
[4] Yn cynnwys treuliau yr aethpwyd iddynt o fis Hydref 2014 ond nas talwyd nes 2015–2016.
[5] Ymddiswyddodd 30 Mehefin 2014.
[6] Yn cynnwys taliadau lwfans o £1,940 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[7] Yn cynnwys taliadau lwfans o £4,535 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[8] Ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2015.
[9] Ymddiswyddodd 17 Rhagfyr 2014. Yn cynnwys taliadau lwfans o £970 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[10] Yn cynnwys taliadau lwfans o £1,310 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[11] Yn cynnwys taliadau lwfans o £12,345 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[12] Yn cynnwys taliadau lwfans o £485 yn 2014-2015 am gadeirio Paneli Apeliadau Cofrestru.
[13] Penodwyd 1 Mai 2015.
[14] Penodwyd 1 Mai 2015.
[15] Lwfans am Gadeirio Panel Apeliadau Cofrestru yr aethpwyd iddo yn 2013–2014 ond nas talwyd tan 2014–15.

## Dulliau a ddefnyddir i asesu perfformiad aelodau

101 Mae gan y Cyngor bolisi a phroses y cytunwyd arnynt ar waith ar gyfer adolygu a gwella effeithiolrwydd y Cyngor ei hun a'i aelodau. Cynhaliwyd adolygiadau blynyddol o berfformiad y Cadeirydd ac aelodau unigol yn 2015–2016.

102 Caiff perfformiad Cadeirydd y Cyngor ei adolygu gan y Dirprwy Gadeiryddion, a hynny drwy adolygiad strwythuredig a gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cynnwys hunanasesiad gan y Cadeirydd ac asesiad cymheiriaid gan aelodau'r Cyngor. Defnyddir y canlyniadau i gytuno ar amcanion a phennu anghenion datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae proses debyg ar waith ar gyfer aelodau unigol o'r Cyngor a arweinir gan y Cadeirydd.

## Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli

103 Mae'r uwch dîm rheoli (sef y Weithrediaeth) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, y Prif Swyddog Gweithredu (dros dro o 15 Medi 2015 ac yn barhaol o 1 Chwefror 2016) a chyfarwyddwyr sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Gweithredu. Nid oes unrhyw un o aelodau'r Weithrediaeth yn aelodau o'r Cyngor nac yn ymddiriedolwyr yr NMC.

104 Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Mae'r Cyngor wedi dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd i'r graddau a ddisgrifir yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

105 At ddibenion datgan, mae'r Cyngor, yn unol â chyngor y Pwyllgor Archwilio, wedi penderfynu bod pob personél allweddol yn aelodau o'r tîm Gweithredol (gan gynnwys unrhyw ddeiliaid swyddi dros dro). Caiff manylion cydnabyddiaeth yr holl unigolion hyn eu datgan yn llawn yn Nhabl 1 ar dudalen 27.

106 Fel arfer mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. O ran cyfarwyddwyr, mae'n ofynnol iddynt roi tri mis o rybudd.

107 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried ac yn argymell i'r Cyngor strategaeth wobrwyo briodol ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr. Y Pwyllgor sy'n cymeradwyo pecyn gwobrwyo'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth wobrwyo a bennwyd gan y Cyngor.

108 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cymeradwyo'r broses o bennu amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a gwerthuso ei berfformiad, ac yn adolygu adroddiadau gan y Cadeirydd mewn perthynas â hynny. Mae hefyd yn adolygu adroddiadau gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ymwneud â phennu amcanion ar gyfer y cyfarwyddwyr a gwerthuso eu perfformiad. Aseswyd perfformiad y cyfarwyddwyr drwy ein proses adolygu perfformiad a datblygiad a weithredwyd yn ystod 2015–2016.

109 Yn 2015–2016, cyflwynodd y Cyngor gynllun bonws perfformiad ar gyfer y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr. O dan y cynllun, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr yn gymwys i gael bonws perfformiad

ar wahân nad yw'n bensiynadwy sy'n seiliedig ar asesiad gwrthrychol seiliedig ar dystiolaeth yn erbyn amcanion tîm ac amcanion personol unigol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun corfforaethol. Mae'r taliadau bonws a wnaed yn 2015–2016 yn berthnasol i berfformiad yn ystod 2014–2015. Caiff unrhyw daliadau bonws a ddyfernir am berfformiad yn ystod 2015–2016 eu talu yn 2016–2017. Caiff effeithiolrwydd y cynllun ei adolygu gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ym mis Mai 2016.

110 Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn 2015–2016 oedd £173,800[16]. Gwerth ei buddiannau pensiwn oedd £46,484[17] sy'n golygu mai cyfanswm y gydnabyddiaeth oedd £220,284 (yn 2014–2015, ei chydnabyddiaeth oedd £161,000 a gwerth ei buddiannau pensiwn oedd £43,512, sy'n golygu mai cyfanswm ei chydnabyddiaeth oedd £204,512).

111 Mae cydnabyddiaeth yr uwch dîm rheoli wedi'i nodi yn **nhabl 1** ar dudalen 27 ac mae'r hawliad pensiwn wedi'i nodi yn **nhabl 2** ar dudalen 28.

112 Talwyd cyfanswm o £1,679,332 i'r tîm Gweithredol (gan gynnwys aelodau parhaol a thros dro) yn 2015–2016 (o gymharu â £925,165 yn 2014–2015). O'r swm hwn, talwyd £1,070439 i aelodau parhaol y Weithrediaeth yn 2015–2016 (o gymharu â £910,909 yn 2014–2015). Yn 2015–2016, roedd hyn yn cynnwys £726,728 mewn cyflogau, £10,974 mewn taliadau eraill, £89,612 mewn taliadau yn lle rhybudd, £67,230 mewn taliadau diswyddo, £24,815 mewn taliadau bonws a £151,080 mewn cyfraniadau pensiwn. Cost aelodau dros dro y tîm Gweithredol yn 2015-2016 oedd £608,893 (o gymharu â £14,256 yn 2014-2015).

113 Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd unrhyw fuddiannau nad oeddent yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2015-2016.

## Cydnabyddiaeth ac asesu perfformiad aelodau eraill o staff

114 Mae pob cyflogai yn ymgymryd â chyfnod prawf o chwe mis pan fydd yn dechrau mewn cyflogaeth a disgwylir iddo roi rhybudd o un i dri mis yn dibynnu ar radd y swydd.

115 Adolygir cydnabyddiaeth pob cyflogai bob blwyddyn gan ystyried amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys fforddiadwyedd, cost cyfraddau byw, data meincnodi a data recriwtio a chadw yn gyffredinol. Yn 2015–2016, cymeradwyodd y Cyngor, ar argymhelliad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, ddarpariaeth ar gyfer cynnydd chwyddiannol cyffredinol o 1 y cant at gyflog pob aelod o staff cymwys yn weithredol o 1 Ebrill 2015 (2014–2015: 2.5 y cant) a chysoni cyflog cyflogeion i lefel nad yw'n is na 7.5 y cant islaw cyfradd ganolrifol eu graddfa gyflog.

[16] Mae'r swm ar gyfer 2015–2016 yn cynnwys cynnydd o 1 y cant mewn cyflog sylfaenol yn unol â'r codiad cyflog ar gyfer pob aelod o staff, ynghyd â thaliad am 5 diwrnod o wyliau blynyddol nas cymerwyd yn ystod 2015–2016 a thaliadau bonws perfformiad yn 2015–2016 ar gyfer 2014–2015.

[17] Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn ar sail y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn ystod y flwyddyn, wedi'i luosi ag 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau a wnaed gan yr aelod. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

116 Gan ddilyn cyngor y Pwyllgor, cytunodd y Cyngor hefyd y dylai fod gan y Weithrediaeth yr hyblygrwydd i dalu cyfraddau gwahanol am sgiliau arbenigol mewn meysydd wedi'u targedu lle mae hynny'n hanfodol er mwyn denu a chadw staff i gyflawni swyddogaethau sefydliadol allweddol.

117 Gweithredwyd ein proses adolygu perfformiad a datblygiad yn ôl yr arfer drwy gydol y flwyddyn ond nid oedd yn gysylltiedig ag ystyriaethau cyflog. Yn y dyfodol, efallai yr ystyrir sut y dylai unrhyw gysylltiadau rhwng cyflog a pherfformiad weithredu o dan y trefniadau newydd.

## Trefniadau pensiwn

118 Mae'r NMC yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.

119 Mae cyflogeion sy'n aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig yn cyfrannu gwerth chwech y cant o'u cyflog. Cyfrannodd y cyflogwr 29.2 y cant at y cynllun pensiwn yn ystod 2015–2016 (2014–2015: 29.2 y cant), fel y nodwyd gan Actwari'r Cynllun. Roedd tua 25 y cant o gyflogeion yn aelodau o'r cynllun hwn ar 31 Mawrth 2016. Caewyd y cynllun i gyflogeion a ymunodd â'r NMC ar ôl 1 Tachwedd 2013

120 Sefydlodd yr NMC gynllun cyfraniadau diffiniedig o 1 Tachwedd 2013 y gallai cyflogeion a ymunodd â'r NMC ar neu ar ôl y dyddiad hwn ddewis ymuno ag ef. Mabwysiadwyd y cynllun fel cynllun pensiwn gweithle'r NMC at ddibenion awto-gofrestru o 1 Ebrill 2014 pan gafodd pob cyflogai cymwys ei gofrestru'n awtomatig ar gyfer y cynllun. Ar 31 Mawrth 2016, roedd 95 y cant o'r rhai a gofrestrwyd ar gyfer y cynllun yn aelodau ohono o hyd. Yn ystod 2015–2016 y cyfraniadau gofynnol sylfaenol i'r cynllun oedd 5 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai (o gymharu â 4 y cant ar gyfer y cyflogwr ac 1 y cant ar gyfer y cyflogai yn 2014–2015).

## Gwahaniaethau cyflog yn yr NMC

121 Cyfanswm cost y Prif Swyddog Technoleg dros dro i'r busnes oedd £253,738, gan gynnwys TAW. Yr aelod staff parhaol â'r cyflog mwyaf yn yr NMC yw'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac rydym wedi defnyddio ei chyflog fel cymharydd wrth gyfrifo'r gwahaniaeth rhwng cydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu. Roedd cydnabyddiaeth yr aelod o staff parhaol ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, 5.97 gwaith (2014–2015: 5.88 gwaith) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithle, sef £29,142 (2014–2015: £27,398). Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân nad yw'n gysylltiedig â pherfformiad, buddiannau mewn da, gwyliau blynyddol â thâl yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

122 Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodiadau 9 a 10 i'r cyfrifon.

**Y Fonesig Janet Finch**
**Cadeirydd**
**NMC**
**13 Hydref 2016**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**13 Hydref 2016**

# Tabl 1: Cydnabyddiaeth yr uwch dîm rheoli 2015–2016

| | | | Cyflog | Taliadau eraill[1] | Taliad yn lle rhybudd | Diswyddo | Bonws[2] | Cyfraniadau pensiwn cyflogwr | Cyfanswm 2015-2016 | Cyfanswm 2014-2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Jackie Smith | Prif Weithredwr a Chofrestrydd | | 155-160 | 0-5 | - | - | 10-15 | 40-45 | 215-220 | 200-205 |
| Alison Sansome | Prif Swyddog Gweithredu[3] | dechrau 15 Medi 2015 | 65-70 | - | - | - | - | 20-25 | 80-85 | - |
| Alison Sansome | Cyfarwyddwr Cofrestru[3] | dyrchafu 15 Medi 2015 | 60-65 | - | - | - | 0-5 | 15-20 | 80-85 | 150-155 |
| Tom Kirkbride | Cyfarwyddwr Cofrestru Dros Dro | dechrau 5 Hydref 2015 | 40-45 | - | - | - | - | 10-15 | 55-60 | - |
| Mark Smith | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol[4] | gadael 30 Mehefin 2015 | 30-35 | 0-5 | 30-35 | - | - | 5-10 | 70-75 | 155-160 |
| Jon Billings | Cyfarwyddwr Strategaeth | gadael 31 Mawrth 2016 | 120-125 | 5-10 | 30-35 | - | - | 5-10 | 160-165 | 115-120 |
| Katerina Kolyva | Cyfarwyddwr Ymarfer Parhaus | gadael 31 Mawrth 2016 | 115-120 | - | 25-30 | 65-70 | - | 5-10 | 215-220 | 120-125 |
| Sarah Page | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | | 125-130 | - | - | - | 5-10 | 35-40 | 170-175 | 160-165 |
| Dros dro | | | | | | | | | | |
| Camilla Black | Cyfarwyddwr Cyllid[5,9] | dechrau 18Mehefin 2015 gadael 22 Ionawr 2016 | | | | | | | 160-165 | |
| Richard Finlayson | Cyfarwyddwr Cyllid[6,9] | dechrau 8 Chwefror | | | | | | | 40-45 | |
| Rachel Murphy | Prif Swyddog Technoleg[7,9] | dechrau 22 Ionawr 2015 | | | | | | | 250-255 | 10-15 |
| Annette Clinnick | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol[8,9] | dechrau 22Gorffennaf 2015 | | | | | | | 145-150 | |

1. Yn ymwneud â thaliadau eraill fel gwerthu gwyliau nas defnyddiwyd yn ôl i'r NMC.

2. Yn ymwneud â bonws 2014-2015 a dalwyd yn 2015-2016.

3. . Cafodd y Cyfarwyddwr Cofrestru ei ddyrchafu i rôl newydd sbon Prif Swyddog Gweithredu ar 15 Medi 2015. Roedd hyn ar sail dros dro i ddechrau tan 1 Chwefror 2016 pan ddaeth yn barhaol.

4. Disodlwyd y rôl gan Gyfarwyddwr Cyllid dros dro, Prif Swyddog Technegol dros dro a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol dros dro.

5. Cafodd rôl y Cyfarwyddwr Cyllid ei llenwi dros dro gyda chontractwr rhwng mis Mehefin 2015 a mis Ionawr 2016.

6. Caiff rôl y Cyfarwyddwr Cyllid ei llenwi dros dro gyda chontractwr yn barhaus rhwng mis Chwefror 2016 a diwedd y contract ym mis Mehefin 2016.

7. Cafodd rôl y Prif Swyddog Technoleg ei llenwi ar sail dros dro rhan amser gyda chontractwr drwy gydol y flwyddyn ariannol gyda'r contract yn dod i ben ym mis Mehefin 2016.

8. Cafodd rôl y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ei llenwi dros dro gyda chontractwr o fis Gorffennaf 2015 gyda'r contract yn dod i ben ym mis Mehefin 2016.

9. Mae'r symiau a ddangosir ar gyfer pob contractwr yn cynnwys unrhyw ffioedd a dalwyd gan yr NMC i asiantaethau ar gyfer gwasanaethau contractwr ac unrhyw TAW.

## Tabl 2: Buddiannau pensiwn yr uwch dîm rheoli 2015–2016

| | | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60 oed | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn dros ben yn 60 oed yn ystod y flwyddyn adrodd | Cyfanswm a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2016 | Cyfandaliad yn 60 oed yn ymwneud â phensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2016, gan dybio bod yr aelod wedi cymryd yr uchafswm di-dreth arian parod | Y swm o pensiwn a gronnwyd ar y 31ain o Fawrth erbyn 30 oed | Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian Parod ar 1 Ebrill 2015 | Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian Parod ar 31 Mawrth 2016 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian Parod | Cynnydd gwirioneddol yng ngwerth buddiannau pensiwn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £2,500 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | Bandiau o £5,000 | I'r £1,000 agosaf | I'r £1,000 agosaf | I'r £1,000 agosaf | I'r £1,000 agosaf |
| Jackie Smith | Prif Weithredwr a Chofrestrydd | 2,500-5,000 | 15,000-17,500 | 0-2,500 | 10,000-15,000 | 70,000-75,000 | 10,000-15,000 | 342,000 | 408,000 | 72,000 | 46,484 |
| Alison Sansome | Prif Swyddog Gweithredu | 2,500-5,000 | 15,000-17,500 | 0-2,500 | 5,000-10,000 | 30,000-35,000 | 0-5,000 | 104,000 | 189,000 | 72,000 | 43,826 |
| Tom Kirkbride | Cyfarwyddwr Cofrestru dros Dro | 0-2,500 | 10,000-12,500 | 0-2,500 | 5,000-10,000 | 25,000-30,000 | 0-5,000 | 84,000 | 124,000 | 39,000 | 31,113 |
| Mark Smith | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | 0-2,500 | 2,500-5,000 | 0-2,500 | 5,000-10,000 | 25,000-30,000 | 0-5,000 | 145,000 | 154,000 | 13,000 | 8,858 |
| Jon Billings | Cyfarwyddwr Strategaeth | 0-2,500 | 0-2,500 | 0-2,500 | 0-5,000 | 0-5,000 | 0-5,000 | 3,000 | 8,000 | 3,000 | |
| Katerina Kolyva | Cyfarwyddwr Ymarfer Parhaus | 0-2,500 | 2,500-5,000 | 0-2,500 | 0-5,000 | 0-5,000 | 0-5,000 | 6,000 | 13,000 | 7,000 | |
| Sarah Page | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | 0-2,500 | 15,000-17,500 | 2,500-5,000 | 25,000-30,000 | 125,000-130,000 | 15,000-20,000 | 708,000 | 751,000 | 62,000 | 39,426 |

Nodiadau

1: Gwerth buddiannau pensiwn a gyfrifwyd gan ddefnyddio lluosydd o 20 a gan ddidynnu cyfraniadau'r aelod. Mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y llynedd.
2: Gadawodd M Smith y cynllun ar 30 Mehefin 2015 felly cyfrifwyd ei fuddiannau ar sail ei wasanaeth nes ei ddyddiad ymadael.
3: Aelodau cynllun cyfraniadau diffiniedig.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd mewn perthynas â'r cyfrifon

123 Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r gyfarwyddeb a roddwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau (SoRP) a ddiwygiwyd yn 2015 a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd (Atodiad 1).

124 Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd (fel Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

125 Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:

- dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor
- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith yn gyson
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys
- datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt yn y datganiadau ariannol.

126 Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

127 Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, ym

*Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu*, a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac yn *Managing public money* (Trysorlys EM, 2013).

**Prif le busnes**

128 Mae'r NMC yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Ei brif le busnes yw:

23 Portland Place
London
W1B 1PZ

**Cynghorwyr**

**Archwilwyr ar y Cyd**

haysmacintyre
Cyfrifwyr Siartredig
26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

**Archwilwyr ar y Cyd**

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

**Bancwyr**

HSBC
117 Great Portland Street
London
W1A 4UY

**Cyfreithwyr**

Blake Morgan LLP
Harbour Court
Compass Road
North Harbour
Portsmouth
PO6 4ST

Capsticks Solicitors LLP
1 St Georges Road
London
SW19 4DR

Field Fisher Waterhouse LLP
Riverbank House
2 Swan Lane
London
EC4R 3TT

**Archwilwyr Mewnol**

Moore Stephens
150 Aldersgate Street
London
EC1A 4AB

# Datganiad llywodraethu blynyddol

129 Mae'r NMC yn gorff statudol annibynnol. Nodir ein pwerau a'n cyfrifoldebau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn) ac yn ein rheolau statudol.[18] Rydym hefyd yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (rhif 1091434) ac yn yr Alban (rhif SC038362). Ein hamcan elusennol yw amddiffyn a diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ac eglurwn mewn rhan arall o'r adroddiad hwn sut mae ein gwaith yn dangos budd y cyhoedd.

## Y Cyngor

130 Y Cyngor yw corff llywodraethu'r NMC ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo materion yr NMC, gan sicrhau ei fod yn solfent, yn cael ei redeg yn dda ac yn sicrhau budd i'r cyhoedd.

131 Mae Cynllun Dirprwyo'r NMC yn nodi materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn ffurfiol i'r Cyngor fel Bwrdd Ymddiriedolwyr yr NMC. Cylch gwaith y Cyngor yw (a) pennu cyfeiriad strategol a gwerthoedd corfforaethol yr NMC, yn unol â'i ddiben craidd; (b) sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad a risg; (c) cynnal gonestrwydd wrth arfer swyddogaethau'r NMC a defnyddio cronfeydd, a chynnal atebolrwydd cyhoeddus amdanynt.

132 Cyfansoddwyd y Cyngor yn unol â Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio) 2012.[19] Mae'n cynnwys 12 aelod a nifer gyfartal o aelodau cofrestredig ac aelodau lleyg. Aelodau lleyg yw'r rhai nad ydynt erioed wedi bod yn nyrs na bydwraig gofrestredig. Fel rheoleiddiwr sy'n gweithio ledled y DU, mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys o leiaf un aelod sy'n byw neu'n gweithio yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

133 Penodir aelodau'r Cyngor gan y Cyfrin Gyngor, sy'n cael sicrwydd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) ynghylch cadernid y broses benodi neu ailbenodi a fabwysiadwyd gan yr NMC.

134 Penododd y Cyfrin Gyngor ddau aelod newydd o blith cofrestryddion yn dilyn proses recriwtio agored. Dechreuodd y ddau yn eu rolau ar 1 Mai 2015 a chawsant hyfforddiant sefydlu llawn. Yn ogystal, cafodd tri aelod eu hailbenodi gan y Cyfrin Gyngor i wasanaethu am gyfnodau pellach o 1 Mai 2016. Mae aelod annibynnol (nad yw'n aelod o'r Cyngor) sydd â chymwysterau a phrofiad ariannol addas wedi'i benodi yn gadeirydd y Pwyllgor Archwilio am dymor penodedig o 12 mis o 1 Mehefin 2016.

135 Mae dwy broses recriwtio agored arall ar waith i benodi un aelod cofrestredig sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru ac un aelod lleyg.

136 Nodir aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor yn ystod 2015–2016 isod.

---

[18] OS 2002/253
[19] OS 2012/2745

**Aelodaeth a ffigurau presenoldeb y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016**

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Y Fonesig Athro Janet Finch | 5/6 |
| Karen Cox (penodwyd 1 Mai 2015) | 6/6 |
| Maura Devlin MBE | 6/6 |
| Maureen Morgan OBE | 4/6 |
| Robert Parry (penodwyd 1 Mai 2015) | 6/6 |
| Quinton Quayle | 6/6 |
| Louise Scull | 4/6 |
| Carol Shillabeer (ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2015) | 2/4 |
| Amerdeep Somal | 6/6 |
| Stephen Thornton CBE | 6/6 |
| Lorna Tinsley | 4/6 |
| Dr Anne Wright CBE | 5/6 |

## Strategaeth yr NMC ar gyfer 2015–2020

137 Mae Strategaeth y Cyngor, a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2015, yn nodi ein huchelgais i fod yn rheoleiddiwr deinamig, blaengar a deallus. Caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith drwy gynlluniau corfforaethol blynyddol, a ategir gan gynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau.

138 Ym mis Ionawr 2016, cytunodd y Cyngor mewn egwyddor i fwrw ymlaen â rhaglen drawsnewid sylweddol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgais strategol, gan roi gwerth ardderchog am ffioedd cofrestryddion ar yr un pryd. Caiff y rhaglen Drawsnewid ei chynnal dros gyfnod o bedair neu bum mlynedd a bydd yn cynnwys pedair elfen gysylltiedig: pobl; sefydliad; lleoliad a gwerth am arian, gan gynnwys cydweithio â rheoleiddwyr eraill, lle bo hynny'n briodol.

139 Ochr yn ochr â hyn, caiff y strategaeth ariannol hirdymor ei datblygu er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o'r goblygiadau ariannol a'u bod wedi'u hategu gan bolisïau priodol ar gronfeydd wrth gefn a buddsoddi.

140 Mae Grŵp Llywio'r Rhaglen Drawsnewid, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, wedi'i sefydlu i oruchwylio'r rhaglen a rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynghylch cynnydd a chyflawniadau.

## Effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu

141 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i lywodraethu o safon uchel. Mae ein harfer yn cydymffurfio â *Chod Ymarfer Da Llywodraethu Corfforaethol* Trysorlys EM i'r graddau y mae'n gymwys i'r sefydliad. Mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â saith egwyddor bywyd cyhoeddus, sef: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

142 Mae'r Cadeirydd a'r aelodau yn cael arfarniadau unigol yn flynyddol ac mae'r Cyngor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd, a bwriedir cynnal yr adolygiad nesaf yn ystod hydref 2016.

143 Ymhlith y meysydd cryfder a nodwyd yn ystod adolygiadau mae diwylliant y Cyngor; trefniadau busnes; eglurder o ran rôl, cyfrifoldebau a chydberthnasau'r Cyngor/Gweithrediaeth. Nodwyd bod sicrhau sgiliau ac arbenigedd eang ymhlith aelodau a rhoi cyfleoedd datblygu i aelodau yn feysydd i'w datblygu. Yn ogystal â'r ymarferion recriwtio agored, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i sicrhau bod ganddo arbenigedd priodol drwy benodi cynghorwyr annibynnol, er enghraifft, ym maes TGCh.

144 Cynhaliodd y Cyngor adolygiad manwl o strwythur, cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Pwyllgor er mwyn sicrhau mai dyma'r rhai mwyaf addas i flaenoriaethau'r NMC nawr ac yn y dyfodol. Daethpwyd i'r casgliad bod strwythur y pwyllgor yn addas, os gwneir rhai mân addasiadau i'r cylch gorchwyl.

145 O ganlyniad i'r adolygiad, roedd y gwelliannau llywodraethu a wnaed yn cynnwys datblygu matrics sgiliau; mabwysiadau egwyddorion ar gyfer penodiadau i'r Pwyllgor, gan gynnwys telerau swydd; a rhoi terfyn ar gyfranogiad y Cyngor mewn grwpiau a sefydlwyd i gynghori'r Weithrediaeth, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u rhannu'n glir. Yn ogystal, gan ystyried sgiliau a datblygiad aelodau unigol, cytunodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth Pwyllgorau o fis Ionawr 2016 fel y nodir isod.

## Pwyllgorau'r Cyngor

146 Mae'n ofynnol dan statud i'r Cyngor gael Pwyllgor Bydwreigiaeth. At hynny, mae gan y Cyngor Bwyllgor Archwilio; Pwyllgor Cydnabyddiaeth; a Bwrdd Penodiadau o hyd i'w helpu i gyflawni ei rôl. Nodir isod gylch gwaith, aelodaeth a chofnod presenoldeb pob Pwyllgor.

### Pwyllgor Archwilio

147 Cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio yw helpu'r Cyngor a'i reolwyr drwy adolygu cyflawnder a dibynadwyedd sicrwydd o ran llywodraethu, rheoli risg, rheoli'r amgylchedd ac uniondeb datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Louise Scull (Cadeirydd) | 4/4 |
| Maureen Morgan | 3/4 |
| Robert Parry (o 01 Ionawr 2016) | 1/1 |
| Carol Shillabeer (ymddiswyddodd 31 Rhagfyr 2015) | 1/3 |
| Amerdeep Somal (o 01 Ionawr 2016) | 1/1 |
| Stephen Thornton (hyd at 31 Rhagfyr 2015) | 3/3 |

### Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

148 Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw sicrhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cydnabyddiaeth a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn yr NMC. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Quinton Quayle (Cadeirydd hyd at 18 Awst 2015) | 3/3 |
| Karen Cox (o 01 Ionawr 2016) | 0/1 |
| Amerdeep Somal (hyd at 31 Rhagfyr 2015) | 3/4 |
| Stephen Thornton (Cadeirydd 19 Awst 2015) | 5/5 |
| Maura Devlin MBE | 5/5 |

** Yn cynnwys dau gyfarfod eithriadol*

### Y Pwyllgor Bydwreigiaeth

149 Cylch gwaith statudol y Pwyllgor Bydwreigiaeth yw cynghori'r Cyngor ar bob mater sy'n ymwneud â bydwreigiaeth. Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor a rhaid iddo gynnwys nifer gyfartal o fydwragedd ac aelodau lleyg. Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Dr Anne Wright CBE (Cadeirydd) | 6/6 |
| Lorna Tinsley | 6/6 |
| Dr Patricia Gillen | 5/6 |
| Pradeep Agrawal | 6/6 |
| Yvonne Bronsky (ymddiswyddodd 2 Gorffennaf 2015) | 0/2 |
| Farrah Pradhan | 6/6 |
| Susanne Roff | 5/6 |
| Dr Tina Harris | 4/6 |

**Yn cynnwys dau gyfarfod cyfrinachol eithriadol*

### Bwrdd Penodiadau

150 Cylch gwaith y Bwrdd Penodiadau yw helpu'r Cyngor i arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â phenodi Aelodau Panel ac Aseswyr Cyfreithiol. Mae'r Bwrdd Penodiadau yn cynnwys aelodau (partner) nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor. Yn ystod 2015–2016, cafodd Cadeirydd ac aelod newydd eu penodi i'r Pwyllgor yn dilyn proses recriwtio gystadleuol agored. Cafodd y ddau aelod Bwrdd hyfforddiant sefydlu.

151 Nodir isod aelodaeth y Pwyllgor a'i ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

| Aelod | Yn bresennol/nifer y cyfarfodydd |
|---|---|
| Belinda Phipps (Cadeirydd) (penodwyd 3 Awst 2015) | 2/2 |
| Bridget Anderson | 3/3 |
| Mary Dowling | 3/3 |
| Stephen McCafferty | 2/3 |
| Fiona Whiting (penodwyd 3 Awst 2015) | 2/2 |

## Rôl y Weithrediaeth

152 Penodir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan y Cyngor ac mae'n atebol iddo. Cylch gwaith y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw arwain materion a rheoli adnoddau'r NMC o fewn y fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cyngor.

153 Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol yn bersonol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; cadw cyfrif priodol o faterion ariannol; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnyddio adnoddau yn effeithiol. Nes mis Medi 2015, cynorthwywyd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan Fwrdd Gweithredol a oedd yn cynnwys cyfarwyddwyr pob un o'r swyddogaethau corfforaethol.

154 Yn dilyn adolygiad annibynnol o strwythur a gallu'r gweithlu, gwnaed newidiadau i roi mwy o gymorth i'r Prif Weithredwr drwy gyflwyno rôl y Prif Swyddog Gweithredu o fis Medi 2015. Mae newidiadau eraill yn cael eu gwneud i strwythur y sefydliad a rolau uwch reolwyr o fis Ebrill 2016 ac mae rhagor o argymhellion yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r rhaglen Drawsnewid sylweddol y cyfeirir ati uchod.

155 Cafodd strwythurau llywodraethu mewnol i gefnogi'r trefniadau newydd eu cyflwyno yn lle'r Bwrdd Gweithredol o fis Hydref 2015.

155.1 Mae'r Bwrdd Strategaeth a Pholisi, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Chofrestrydd, yn datblygu cyngor ac yn rhoi sicrwydd ynghylch strategaeth, polisi rheoleiddio, deddfwriaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a materion allanol.

155.2 Mae'r Bwrdd Perfformiad ac Adnoddau, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu, yn goruchwylio gweithrediad mewnol y busnes ac yn rhoi sicrwydd ar bob mater sy'n ymwneud â pholisïau mewnol, cynllunio, perfformiad a dyrannu adnoddau o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

## Ansawdd data

156 Mae'r Cyngor yn parhau i gael adroddiad ar reoli perfformiad a risg ym mhob cyfarfod. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r wybodaeth drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyflwyno data meintiol ac ansoddol ychwanegol ym maes cofrestru, mireinio gwybodaeth am addasrwydd i ymarfer ac adroddiadau ychwanegol ar gynnydd y gwelliannau TGCh.

157 Mae'r Cyngor yn dal i fod yn rhagweithiol wrth benderfynu, gyda'r Weithrediaeth, pa wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn craffu ar berfformiad a materion eraill. Ym mis Tachwedd 2015, ailystyriodd y Cyngor y wybodaeth am berfformiad y

mae'n ei chael a phenderfynodd y dylai'r dangosyddion corfforaethol allweddol barhau i fod ar waith ar gyfer gweddill 2015–2016. Mae rhagor o welliannau yn cael gwneud i adroddiadau ar berfformiad yn 2016–2017, gan gynnwys gwybodaeth ansoddol am addasrwydd i ymarfer, adroddiadau ar effeithlonrwydd a monitro prosesau ailddilysu.

158 Yn 2015–2016, gwnaethom gynnal asesiad cychwynnol o'n data corfforaethol a dechrau rhaglen glanhau data. Bydd y gwaith paratoi hanfodol hwn ar gyfer ein trefniadau casglu data a gwybodaeth yn y dyfodol yn parhau yn 2016–2017.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

159 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sefydlu a chynnal system rheoli risg a rheolaeth fewnol gadarn er mwyn galluogi'r NMC i gyflawni ei ddiben rheoleiddio craidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn hytrach na'i dileu, ac i roi sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â gweithredu'r system rheolaeth fewnol a rheoli risg.

160 Y Cyngor sy'n gyfrifol yn gyffredinol am reoli risg ac mae'n cynnal adolygiad corfforaethol blynyddol o risgiau. Mae'r Cyngor hefyd wedi trafod y prif risgiau y mae'r NMC yn eu hwynebu ym mhob un o'i gyfarfodydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi trafod y broses o reoli risg, ac wedi ystyried effeithiolrwydd y broses rheoli risg, ym mhob un o'i gyfarfodydd.

161 Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau bod system rheoli risg a rheolaeth fewnol effeithiol ar waith; y Prif Swyddog Gweithredu sy'n gyfrifol am weithredu'r systemau a, thrwy'r cyfarwyddwyr, am nodi a gwerthuso risgiau, rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith a monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno. Roedd y Bwrdd Gweithredol ac, yn ddiweddarach, y Bwrdd Perfformiad ac Adnoddau, yn adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol yn ystod cyfarfodydd misol ac yn cael sicrwydd gan y grŵp craffu ar risg mewnol ynghylch sut y caiff risg ei rheoli ar draws y sefydliad.

162 Rydym yn cynnal adolygiad mewnol blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg. Mae gwersi o'r adolygiad hwn, a'r archwiliad mewnol a gynhaliwyd yn 2014–2015, wedi llywio gwelliannau i'n dull rheoli risg, gan gynnwys datblygu deunyddiau i godi ymwybyddiaeth staff o risgiau a chadarnhau cyfrifoldebau risg ar lefel cyfarwyddiaeth. Roedd archwiliad mewnol arall yn 2015–2016 wedi rhoi sicrwydd ynghylch defnydd ac effeithiolrwydd ein fframwaith rheoli risg ar lefel cyfarwyddiaeth ac i ba raddau y mae wedi'i ymgorffori mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd. Gweithredir ar argymhellion o'r archwiliad hwn a chamau gweithredu o'n hadolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ar gyfer 2015–2016 yn y flwyddyn i ddod.

163 Yn ogystal, mae'r Weithrediaeth a'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal adolygiad ddwywaith y flwyddyn o'r map sicrwydd corfforaethol sy'n rhoi trosolwg o gryfder y sicrwydd sydd ar gael mewn meysydd swyddogaethol allweddol.

164 Roedd rhaglen o adolygiadau sicrwydd ansawdd a gynhaliwyd ar draws cyfarwyddiaethau rheoleiddio yn 2015–2016 wedi helpu i nodi meysydd traws-

sefydliadol i'w gwella, er enghraifft atgyfnerthu prosesau gweithredu, y byddwn yn eu datblygu.

## Datgeliadau er budd y cyhoedd (chwythu'r chwiban)

165 Mae'r NMC wedi rhoi polisi datgeliadau er budd y cyhoedd (‘chwythu'r chwiban’) ar waith i'w ddefnyddio gan bob unigolyn sy'n gweithio i'r NMC, gydag ef neu ar ei ran. Cafodd y polisi chwythu'r chwiban ei ddefnyddio unwaith yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 pan godwyd pryder ynghylch cofrestriadau tramor. Gwnaed cwyn hefyd ynghylch triniaeth anffafriol a llwgrwobrwyaeth honedig o ganlyniad i godi'r pryder. Cafodd y ddwy gŵyn eu cyfeirio i gael ymchwiliad annibynnol allanol.

166 Canfu'r ymchwiliad annibynnol i'r pryder nad oedd unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd na chamau gweithredu yr oedd angen i'r NMC eu cymryd. Ymchwiliwyd i'r gŵyn ynghylch triniaeth anffafriol yn unol â pholisi cwynion yr NMC. Cadarnhaodd yr ymchwiliad hwn un elfen o un gŵyn yn rhannol y gellid bod wedi'i rheoli'n well. Ni chafodd elfennau eraill y gŵyn eu cadarnhau ac ni chafodd yr honiad o lwgrwobrwyaeth ei gadarnhau chwaith. Cafodd apêl yn erbyn canfyddiadau'r ymchwiliad i'r gŵyn ei gwrthod. Gwnaeth adroddiad yr ymchwiliad rai awgrymiadau defnyddiol ynghylch sut y gellid ymdrin â materion penodol yn well yn y dyfodol ac rydym yn rhoi sylw i'r rhain. Cafodd canlyniadau'r ddau ymchwiliad eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a gafodd sicrwydd ynghylch y camau gweithredu a oedd yn cael eu rhoi ar waith a'r gwersi a ddysgwyd.

167 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod staff yn cael eu hannog i godi pryderon a'u bod yn gallu gwneud hynny. Yn ystod 2015–2016, rydym wedi gwneud rhagor o waith ar god ymarfer Public Concern at Work ac adborth gan rai sydd wedi chwythu'r chwiban. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau sylweddol i'n polisi chwythu'r chwiban er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i staff, canllawiau gwell i staff gan gynnwys ar reoli ymchwiliadau, codi ymwybyddiaeth staff a darparu hyfforddiant.

## Llywodraethu gwybodaeth a diffygion o ran diogelwch

168 Mae polisïau'r NMC yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am bob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys colli unrhyw ddata personol. Caiff digwyddiadau eu monitro gan y Bwrdd Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth sy'n atebol i'r Bwrdd Perfformiad ac Adnoddau am sicrhau y caiff gwersi eu dysgu er mwyn atal digwyddiadau rhag codi eto.

169 Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, bu 120 (2014–2015:119) o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth, y cafodd 5 ohonynt eu dosbarthu’n rhai difrifol iawn neu ddifrifol (2014–2015:4); 30 yn rhai cymedrol (2014–2015:43); 63 yn rhai mân (2014–2015:58); a 22 yn rhai dibwys (2014–2015:14). O'r 120 o ddigwyddiadau, roedd 68 yn achosion o ddatgelu data, y cafodd un ohonynt ei ddosbarthu'n ddigwyddiad difrifol iawn neu ddifrifol (2014–2015: 3). Roedd y digwyddiad hwn yn ymwneud â rhai dogfennau a oedd yn cynnwys data personol a gafodd eu hanfon at y derbynnydd anghywir drwy gamgymeriad, a gyhoeddodd rywfaint o'r data yn y dogfennau ar gyfryngau cymdeithasol. Cafodd camau lliniaru eu cymryd ar unwaith a hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am y digwyddiad. Mae'r ICO wedi cau'r

ymchwiliad i'r digwyddiad a gofnodwyd yn 2015–2016 gyda chyngor, y byddwn yn ymateb iddo yn ein rhaglen waith ar ddiogelwch gwybodaeth yn 2016–2017. Mae'r digwyddiad yr hysbyswyd yr ICO amdano ac sy'n weddill o 2014–2015 hefyd wedi'i gau ac nid oes angen cymryd unrhyw gamau rheoleiddio.

170 Rydym yn cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o'r risgiau sy'n ein hwynebu o ran diogelwch gwybodaeth ac yn ei adolygu'n rheolaidd. Rydym yn dilyn rhaglen waith flynyddol ar ddiogelwch gwybodaeth, a lunnir yn unol â safon diogelwch gwybodaeth ryngwladol ISO 27001.

171 Yn ystod 2015–2016, gwnaethom barhau i wneud gwelliannau ym maes diogelwch gwybodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal asesiad o risgiau diogelwch gwybodaeth ein cyflenwyr, a gwneud gwelliannau i drefniadau storio a rheoli dogfennau yn ddiogel yn ein hadrannau Addasrwydd i Ymarfer a Chofrestriadau. Gwnaethom hefyd gysoni ein rhaglenni gwaith ar gyfer diogelwch gwybodaeth a pharhad busnes drwy ddod â'n Gweithgor Parhad Busnes o dan reolaeth ein Bwrdd Llywodraethu a Diogelwch Gwybodaeth.

## Materion a risgiau allweddol yr aethpwyd i'r afael â hwy yn ystod y flwyddyn

172 Nodwyd gwendidau sylweddol o ran TGCh, cyllid a chaffael yn 2014–2015 a rhoddwyd camau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain, fel y trafodir isod. Cododd heriau ychwanegol o ganlyniad i newidiadau a swyddi gwag ymhlith uwch reolwyr, ac o ganlyniad, roedd angen lefel uchel o staff dros dro arbenigol ym maes TGCh, Adnoddau Dynol a Chyllid. Dylai rôl newydd y Prif Swyddog Gweithredu a'r newid graddol i strwythur sefydliadol newydd, ynghyd â phenodiadau parhaol newydd ar lefel uwch, sicrhau mwy o sefydlogrwydd yn ystod 2016–2017.

### TGCh

173 Atgyfnerthodd y Cyngor ei allu ei hun i oruchwylio materion TGCh yn effeithiol, gan gynnwys penderfyniadau caffael pwysig ym maes TGCh, drwy benodi cynghorydd TGCh arbenigol annibynnol drwy broses recriwtio agored.

174 Cafodd Prif Swyddog Technoleg dros dro ei benodi ac arweiniodd hyn at gwblhau'r rhaglen gwella TGCh, gan sefydlogi ein swyddogaeth a'n seilwaith TGCh. Mae rheolaethau wedi'u hatgyfnerthu mewn nifer o feysydd, gan gynnwys: darparu gwasanaethau; cadernid seilwaith; caffael a rheoli contractau TGCh; adfer ar ôl trychineb; a phensaernïaeth. Mae'r newidiadau hyn yn rhoi sylfaen gadarn i feithrin gallu TGCh yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi craffu ar gynnydd yn erbyn y cynllun gwella ym mhob cyfarfod ac mae'n fodlon bod digon o gynnydd wedi'i wneud i drosglwyddo'r eitem hon i'r pennawd busnes arferol.

### Cyllid a chaffael

175 Cafodd yr angen am raglenni gwella cynhwysfawr i atgyfnerthu rheolaethau caffael ac ariannol a gwella aeddfedrwydd ariannol ei nodi hefyd yn unol ag argymhellion gan nifer o adolygiadau archwilio mewnol ac allanol.

176 Nododd asesiad diagnostig a gallu annibynnol o'r maes caffael fod gallu a'r broses prynu i dalu yn faterion allweddol i fynd i'r afael â nhw. Mae camau gweithredu

wedi'u blaenoriaethu gan gynnwys datblygu piblinell gaffael ac adolygu'r ffordd y gall caffael gefnogi anghenion busnes yn well. Mae prosesau'r gyflogres wedi'u gwella a llwyddwyd i gael achrediad gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Gweithwyr Cyflogres Proffesiynol. Mae adolygiad yn mynd rhagddo o reoliadau ariannol a'r fframwaith rheoli ariannol craidd, gyda mewnbwn gan y tîm gweithredol a chyngor ar arfer gorau gan y gwasanaeth archwilio mewnol.

177 Er y gwnaed rhywfaint o gynnydd yn ystod 2015–2016, ni fu mor gyflym ag y byddem wedi dymuno a hynny'n rhannol o ganlyniad i'r newidiadau ymhlith uwch reolwyr y cyfeiriwyd atynt eisoes. Rhoddir hwb pellach i'r gwaith hwn ar hyn o bryd a bydd y Bwrdd Perfformiad ac Adnoddau yn ei oruchwylio'n ofalus er mwyn sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal yn 2016–2017.

178 Cynhaliwyd adolygiad safle er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth glir o'r rhwymedigaethau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle presennol ac y gallwn wneud dewisiadau gwybodus i gefnogi gweithrediadau yn y dyfodol.

179 Mae strategaeth ariannol hirdymor sy'n seiliedig ar adolygiadau o ddyluniad y sefydliad a'i safle yn cael ei datblygu gan y Cyngor gyda chymorth allanol; bydd y Strategaeth hon yn ategu rhaglen Drawsnewid gyffredinol yr NMC.

**Gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth**

180 Mae rheolaethau gwrth-dwyll wedi'u hatgyfnerthu gan gynnwys rhoi hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff ar reolaethau gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Daeth asesiad risg diweddar o lwgrwobrwyaeth gan y gwasanaeth archwilio mewnol i'r casgliad bod y risg hon yn isel ar hyn o bryd.

**Goruchwylio a rheoleiddio bydwreigiaeth**

181 Yn dilyn dau adroddiad arwyddocaol ar oruchwylio bydwreigiaeth[20] ac ymchwiliad annibynnol y llywodraeth i feithiannau yn Ysbytai Athrofaol Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Bae Morecambe[21], cadarnhaodd y Llywodraeth y byddai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i ddiddymu goruchwyliaeth statudol o'r trefniadau rheoleiddio bydwreigiaeth.

182 Disgwylir i'r newid hwn ddigwydd yn ystod gwanwyn 2017 ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau proses bontio esmwyth, o fewn yr NMC ac yn ehangach, gyda byrddau pontio a arweinir gan y pedwar Prif Swyddog Nyrsio yn goruchwylio trefniadau ym mhob un o bedair gwlad y DU. Mae cynllun cyfathrebu cynhwysfawr ar waith i helpu pawb dan sylw i ddeall y newidiadau.

183 Yn dilyn ein hadolygiad eithriadol o ymarfer bydwreigiaeth yn Guernsey yn 2014, rydym wedi parhau i fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu a luniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Guernsey a'r Awdurdod Goruchwylio Lleol a chefnogi ymdrechion i wella diogelwch cleifion. Cynhaliwyd rhagor o ymweliadau dilynol yn ystod 2015–2016 a gwnaethom nodi fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond cydnabyddir bod angen rhagor o welliannau.

[20] Midwifery supervision and regulation: recommendations for change (yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, 2013); Review of Midwifery Regulation in the UK, King's Fund (NMC, Ionawr 2015)
[21] Yr Adran Iechyd, 2015

### Gweithio gydag eraill er mwyn mynd i'r afael â risgiau a rennir

184 Ym mis Mehefin 2015, gwnaethom gyhoeddi canllawiau ar y cyd â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar y ddyletswydd gonestrwydd broffesiynol ar gyfer meddygon, nyrsys a bydwragedd. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd eraill i gydweithio â rheoleiddwyr eraill lle byddai hynny o fudd i'r cyhoedd a'r proffesiynau.

185 Gwnaethom gyflwyno ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ar gyfer y DU gyfan i weithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal iechyd er mwyn gwella diogelwch cleifion a sicrhau safonau uwch o ofal drwy roi cyngor ar ein trothwyon atgyfeirio ar gyfer addasrwydd i ymarfer, ailddilysu a materion eraill sy'n effeithio ar nyrsys a bydwragedd. Rydym hefyd yn rhannu data ar berfformiad gyda phenderfynwyr ym maes gofal iechyd lleol fel y gallwn ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o themâu allweddol a thueddiadau sy'n datblygu o ran perfformiad gwael ac rydym wedi gweld cynnydd o 33 y cant yn nifer yr atgyfeiriadau rydym wedi'u gwneud at reoleiddwyr eraill.

186 Roeddem wedi parhau i ddatblygu ein gwaith ymgysylltu a'n trefniadau rhannu gwybodaeth ag eraill, gan gynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), Health Improvement Scotland (HIS), yr Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA), yn ogystal â chymryd rhan mewn fforymau fel y Grŵp Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn yr Alban a'r Rhwydwaith Gwybodaeth Lleol yng Ngogledd Iwerddon. Yn 2016–2017, mae gennym gynlluniau i ymgysylltu'n agosach ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chyngor Gofal Cymru.

## Goruchwyliaeth yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)

187 Mae'r PSA yn gyfrifol am oruchwylio gwaith y naw rheoleiddiwr gofal iechyd a chyflwyno adroddiadau i'r senedd. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adolygiad perfformiad y PSA yn 2014–2015 ac, yn dilyn asesiad o dan y prosesau newydd a oedd ar waith ar gyfer 2015–2016, mae'r PSA wedi cadarnhau bod yr NMC bellach yn cyrraedd yr holl Safonau Rheoleiddio Da ar gyfer Canllawiau a Safonau, Addysg a Hyfforddiant, gan gynnwys Ailddilysu a Chofrestru. Caiff adolygiad wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar nifer o Safonau addasrwydd i ymarfer ei gynnal yn ystod 2016.

## Pwyllgor Archwilio

188 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Cyngor wedi hysbysu'r Cyngor am gryfder y sicrwydd sydd ar gael, gan gynnwys uwchgyfeirio risgiau a phroblemau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau Cyllid a TGCh a'r strategaeth Sicrhau Ansawdd i'r Cyngor. At hynny, ymhlith y materion yr aethpwyd i'r afael â hwy gan y Pwyllgor roedd:

188.1 Adolygu'r adroddiadau a'r llythyrau cynrychiolaeth i'r archwilwyr allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) mewn perthynas â'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 ac ymatebion rheolwyr i'r archwiliad allanol ac argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon statudol a'r adroddiad blynyddol ar addasrwydd i ymarfer.

188.2 Adolygu'r polisïau cyfrifyddu a'r paratoadau sy'n cael eu gwneud i fabwysiadu'r safonau cyfrifyddu newydd ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2016.

188.3 Adolygu'r trefniadau rheoli risg, y map sicrwydd a thystiolaeth ategol ac ymchwilio'n ddwfn i drefniadau risg, ansawdd a gwelliant parhaus pob cyfarwyddiaeth reoleiddio.

188.4 Cymeradwyo cynllun gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer 2015–2016; ystyried ymatebion rheolwyr i adolygiadau archwilio mewnol; a goruchwylio'r camau a gymerir i gau argymhellion archwilwyr mewnol nas gweithredwyd.

188.5 Adolygu'r gofrestr o ddigwyddiadau difrifol ac achosion o ddatgelu data heb awdurdod ac annog rheolwyr i ddatblygu trefniadau gwell i ddadansoddi gwersi a ddysgir a'u rhannu â'r sefydliad cyfan er mwyn atal digwyddiadau rhag digwydd eto.

188.6 Adolygu unrhyw weithred tendr unigol er mwyn sicrhau ei hun bod y Weithrediaeth yn dilyn prosesau priodol. Mae'r gwaith craffu hwn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn yr achosion o droi at weithrediadau tendr unigol.

## Barn flynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2015–2016

189 Cynhaliwyd naw aseiniad archwilio mewnol wedi'u cynllunio yn ystod y flwyddyn yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Archwilio, yr oedd tri ohonynt yn rhai cynghorol a chwech yn archwiliadau. Derbyniwyd pob un o argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac mae sylw yn cael ei roi iddynt, gyda'r broses o'u gweithredu yn cael ei goruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio.

190 Barn flynyddol Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw bod:

*".... some risk that the system of internal control, governance and risk management will fail to meet management's objectives - in some areas there are adequate and effective systems of governance, but there are also some specific areas of significant risk. Significant improvements are required in these specific areas to improve the adequacy and/or effectiveness of governance, risk management and internal control."*

191 Nododd adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol rywfaint o ostyngiad yn lefel y sicrwydd sydd ar gael o ganlyniad i'r newid a'r ansefydlogrwydd sylweddol yn ystod 2015–2016, yn enwedig o fewn gwasanaethau cymorth, ynghyd â'r ddibyniaeth ar uwch reolwyr dros dro ym maes Cyllid, Caffael, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Busnes Technoleg. Roedd yr heriau allweddol y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys: yr angen am ysgogiad i sicrhau y caiff y cynllun gwella caffael ei gyflawni a'i fod yn mynd i'r afael â materion hysbys, fel gallu caffael a phrynu i dalu; yr angen i wella'r fframwaith rheoli ariannol craidd cyffredinol; ac atgyfnerthu'r system lywodraethu weithredol ar gyfer prosesau cyllid a chaffael, yn enwedig mewn perthynas â gallu ehangach y sefydliad a'i ymgysylltiad â'r swyddogaethau a'r prosesau hyn.

## Materion a risgiau allweddol yn y dyfodol

192 Rydym yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Rydym yn bwriadu parhau i ganolbwyntio'n glir ar atgyfnerthu'r fframwaith rheolaeth fewnol mewn perthynas â chyllid, caffael a rheoli contractau, gan gynnwys drwy waith craffu misol gan y Bwrdd Perfformiad ac Adnoddau a goruchwyliaeth barhaus y Pwyllgor Archwilio. Dylai sefydlogi tîm arwain y Weithrediaeth, gan gynnwys penodi uwch aelodau o staff parhaol i arwain y gwaith hwn, sicrhau bod cynnydd cyflymach yn cael ei wneud.

193 Yn ystod 2016–2017, byddwn yn symud ymlaen â rhaglen waith sylweddol i ddiffinio cymwyseddau ar gyfer nyrsys yn y dyfodol, yn ogystal â pharatoi i roi newidiadau sylfaenol i'n deddfwriaeth ar waith er mwyn gwella ein swyddogaethau addasrwydd i ymarfer ymhellach. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen i ni ymateb i ofynion a all godi o'r amgylchedd allanol, fel cynigion gan y llywodraeth ar gyfer rôl nyrsio newydd o bosibl.

194 Ochr yn ochr â'n gwaith rheoleiddio, byddwn yn dilyn rhaglen Drawsnewid sylweddol a fydd yn effeithio ar sut a ble rydym yn gweithio a'n gweithlu. Yn ystod cyfnodau o ansicrwydd, ceir mwy o risgiau mewn perthynas â'r gweithlu a gallu sefydliadol. Rydym yn ymrwymedig i gyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff ynghylch beth fydd y newidiadau arfaethedig yn ei olygu iddynt hwy a'r sefydliad wrth i ni symud ymlaen. Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau na fydd unrhyw darfu ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd nac unrhyw effaith andwyol ar ddiogelwch y cyhoedd.

195 Fel rhan o'r rhaglen Drawsnewid, bydd angen gwneud penderfyniadau pwysig a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac adnoddau eraill. Fel y nodwyd, mae'r Cyngor yn cymryd camau i atgyfnerthu ei allu i wneud penderfyniadau o'r fath a chynnal goruchwyliaeth effeithiol, gan gynnwys penodi cynghorydd ariannol arbenigol i wneud gwaith dilysu allanol a rhoi sicrwydd bod penderfyniadau'r Cyngor mor gadarn â phosibl.

196 Yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016, rydym wrthi'n trafod gyda'r Llywodraeth a rheoleiddwyr eraill a byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar swyddogaethau'r NMC pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

## Asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd

197 Fel Cadeirydd y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaethau mewnol. Wrth wneud hynny, rydym wedi dibynnu ar farn ac adroddiadau Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, yn ogystal ag amrywiaeth o ffynonellau sicrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys sicrwydd y Prif Swyddog Gweithredu ac asesiadau cyfarwyddwyr o ansawdd rheolaethau a sicrwydd sydd ar waith yn y cyfarwyddiaethau gweithredol y maent yn gyfrifol amdanynt; yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd prosesau rheoli risg; adolygiadau mewnol ac allanol amrywiol; a barn a llythyr rheoli archwilwyr allanol. Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn ag effeithiolrwydd ein trefniadau.

198 Mae gwendidau penodol i roi sylw iddynt yn y fframwaith rheoli cyllid a chaffael ac rydym yn fodlon y bydd y mesurau sydd bellach ar waith yn sicrhau y caiff y rhain eu hunioni yn 2016–2017. Yn gyffredinol, felly, rydym yn ystyried bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli boddhaol ar waith.

199 Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr NMC yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr NMC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Y Fonesig Janet Finch**
**Cadeirydd**
**NMC**
**13 Hydref 2016**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd**
**NMC**
**13 Hydref 2016**

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i aelodau'r elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Ymddiriedolwyr yr Elusen o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu ohonynt mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr) a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011, ac adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 154 ac adran 44 o'r Deddfau hynny yn y drefn honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Ceir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditscopeukprivate

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2016 a'r symiadau net mewn cronfeydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;

- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

**Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes dim gennym i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os credwn fod y canlynol yn wir:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

**haysmacintyre**
Archwilwyr Statudol

26 Red Lion Square
London
WC1R 4AG

13 Hydref 2016

Mae haysmacintyre yn gymwys i weithredu fel archwilydd yn unol â thelerau adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, Datganiad incwm a gwariant cryno, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r archwilydd**

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y 'Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd', y Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol:

- a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Darllenaf hefyd yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2016 ac o'i adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Cyfrin Gyngor o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol neu ni dderbyniwyd datganiadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion na'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**

**Dyddiad:** 18 Hydref 2016

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

## Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | **Cronfeydd digyfyngiad 2016** £'000 | **Cronfeydd cyfyngedig 2016** £'000 | **Cyfanswm cronfeydd 2016** £'000 | Cyfanswm cronfeydd ailddatganedig 2015 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm o:** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol: | | | | | |
| Incwm ffioedd | 2 | **79,417** | **-** | **79,417** | 69,921 |
| Grant (Adran Iechyd) | 24 | **-** | **205** | **205** | 2,642 |
| Buddsoddiadau | 3 | **617** | **26** | **643** | 641 |
| **Cyfanswm** | | **80,034** | **231** | **80,265** | 73,204 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4,5,6, 7,8&9 | **70,591** | **5,753** | **76,344** | 75,530 |
| **Cyfanswm** | | **70,591** | **5,753** | **76,344** | 75,530 |
| **Incwm/(gwariant) net** | | **9,443** | **(5,522)** | **3,921** | (2,326) |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | 21 | **4,202** | **-** | **4,202** | (7,506) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **13,645** | **(5,522)** | **8,123** | (9,832) |
| **Cysoni cronfeydd:** | | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen | 25 | **27,468** | **5,522** | **32,990** | 42,822 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **41,113** | **-** | **41,113** | 32,990 |

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 81 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Dangosir ffigurau cymharol llawn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 yn nodyn 28.

# Y Fantolen ar 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | **2016**<br>**£'000** | Ailddatganwyd 2015<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 13 | **23,200** | 23,997 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **23,200** | 23,997 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 15 | **3,574** | 2,137 |
| Buddsoddiadau (adneuon byrdymor) | | **62,100** | 62,100 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | **22,609** | 14,562 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **88,283** | 78,799 |
| **Rhwymedigaethau** | | | |
| Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 16 | **(56,570)** | (51,701) |
| Darpariaethau: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 17 | **(67)** | (428) |
| **Asedau cyfredol net** | | **31,646** | 26,670 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **54,846** | 50,667 |
| **Credydwyr:** Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 18 | **(583)** | (544) |
| **Darpariaethau:** Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 19 | **(525)** | (666) |
| **Asedau net heb gynnwys rhwymedigaeth pensiwn** | | **53,738** | 49,457 |
| **Rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig** | 21 | **(12,625)** | (16,467) |
| **Cyfanswm asedau net** | 26 | **41,113** | 32,990 |
| **Cronfeydd yr NMC** | | | |
| **Cronfeydd incwm cyfyngedig** | 24 | **-** | 5,522 |
| **Cronfeydd digyfyngiad** | 25 | **41,113** | 27,468 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **41,113** | 32,990 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 81 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Y Fonesig Janet Finch**
**Cadeirydd, NMC**
**13 Hydref 2016**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd, NMC**
**13 Hydref 2016**

## Datganiad o lif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | **£'000** | **2016**<br>**£'000** | £'000 | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | | | |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredu** | | | **10,134** | | 1,492 |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Llog o fuddsoddiadau | 3 | **643** | | 641 | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 13 | **(2,730)** | | (3,721) | |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi** | | | **(2,087)** | | (3,080) |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y cyfnod adrodd** | | | **8,047** | | (1,588) |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn** | | | **14,562** | | 16,150 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn** | | | **22,609** | | **14,562** |

## Cysoni incwm net/(gwariant) â llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | **2016**<br>**£'000** | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm net/(gwariant) o'r cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | **8,123** | (9,832) |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | **(643)** | (641) |
| Taliadau dibrisio | **3,390** | 3,424 |
| Colled ar waredu cyfarpar | **137** | 54 |
| Gostyngiad/cynnydd) mewn dyledwyr | **(1,437)** | (980) |
| Cynnydd mewn credydwyr a darpariaethau | **564** | 9,467 |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **10,134** | 1,492 |

## Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | **22,609** | 14,562 |
| Buddsoddiadau (adneuon byrdymor) | **62,100** | 62,100 |
| Cyfanswm | **84,709** | 76,662 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 81 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, dyfarniadau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Penderfyniad ynglŷn â'r Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o Ymarfer Cyfrifyddu ac Adrodd a argymhellir ar gyfer Elusennau sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) (yn effeithiol 1 Ionawr 2015) - (SORP Elusennau FRS102) a bod y cyfrifon wedi rhoi sylw i ofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion SORP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

Mae'r cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2001, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.

Mae'r NMC yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS102.

**Busnes gweithredol**

Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r NMC i barhau fel busnes gweithredol.

Nod yr NMC yw diogelu'r cyhoedd drwy reoleiddio nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Cyngor wedi adolygu amgylchiadau'r NMC ac o'r farn bod digon o adnoddau yn parhau i fod ar gael i ariannu ei weithgareddau yn y dyfodol agos. Ym marn y Cyngor, mae'r NMC yn fusnes gweithredol.

**Cysoni ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol blaenorol (GAAP)**

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'r Cyngor wedi ystyried p'un a oedd angen ailddatgan eitemau cymaradwy, wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu sy'n ofynnol gan FRS 102 ac FRS 102 SORP Elusennau. Roedd angen ailddatganiadau, ac, yn unol ag FRS 102, cysonir balansau agoriadol ac incwm net/ (gwariant) ar gyfer y flwyddyn â'r incwm net/(gwariant) o dan GAAP blaenorol a addaswyd ar gyfer gwyliau a gronnwyd, dadfeiliadau, darpariaeth pensiwn ymddeol cynnar a chostau prydles. Gweler nodyn 27 i'r cyfrifon.

Ailddatganwyd y balansau cronfa agoriadol ar y dyddiad trosglwyddo (gweler nodyn 27) am fod symiau amherthnasol yn deillio o rwymedigaeth tâl gwyliau; disgowntio dadfeiliadau; y ddarpariaeth pensiwn ymddeol cynnar; ac addasu'r cyfnod dim rhent ar y brydles ar gyfer Stratford Place. Y dyddiad trosglwyddo oedd 1 Ebrill 2014.

Mae'r NMC yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ac yn hanesyddol nid yw wedi gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun. Ar y dyddiad prisio actiwaraidd diweddaraf, sef 31 Mawrth 2013, roedd y cynllun £15.4 miliwn mewn diffyg. O dan FRS17, ni ddarparodd yr NMC ar gyfer y diffyg

hwn ond gwnaeth gydnabod yn y SOFA gyfraniad yr NMC at y cynllun. Ar ôl i NHS Education for Scotland dynnu allan o'r cynllun yn ystod 2015-2016, gall yr NMC nodi'n fwy cadarn ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun ac felly mae wedi mabwysiadu cyfrifyddu pensiwn FRS102 yn llawn. Yn sgil y camau actiwaraidd hyn, addaswyd y flwyddyn flaenorol i adlewyrchu'r ffaith bod y diffyg wedi'i gydnabod yn y Fantolen, bod y gost gwasanaeth a llog cyfredol wedi'u cydnabod yn y SOFA a bod yr elw neu golled wirioneddol wedi'u cydnabod mewn enillion/colledion cydnabyddedig eraill. Gweler nodiadau 21 a 27.

**a) Confensiwn cyfrifyddu**

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd i gynnwys ailbrisio rhai asedau sefydlog.

**b) Asedau sefydlog**

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarpar | - | rhwng tair a phum mlynedd |
| Dodrefn | - | 10 mlynedd |
| Prosiectau TG | - | rhwng tair a phum mlynedd |
| Ailwampio - 23 Portland Place | - | 10 mlynedd |
| Safle lesddaliad - 23 Portland Place | - | 50 mlynedd |

<u>Caiff asedau'n ymwneud â'r eiddo a restrir isod eu dibrisio dros y cyfnodau canlynol:</u>

| | | |
|---|---|---|
| Safle lesddaliad - 61 Aldwych | - | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol - Clarendon House - llawr daear | - | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol - Clarendon House - llawr cyntaf | - | 2 flynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol - 1 Kemble Street | - | 8.5 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol – 20 Old Bailey | - | 23 mis (dros gyfnod y brydles) |
| Eiddo lesddaliadol – 2 Stratford Place | - | 9.7 blynedd (dros gyfnod y brydles) |

Cafodd lesddaliad llawr cyntaf Clarendon House ei ymestyn ar 21 Chwefror 2016 tan 24 Ebrill 2021.

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £1,000.

Ailbrisiodd yr NMC 23 Portland Place yn ystod 2013-2014 ac yn unol ag FRS102 bydd yn defnyddio'r prisiad hwn fel y gost dybiedig wrth fynd ymlaen.

**c) Adnoddau sy'n codi - incwm**

Cydnabyddir yr holl incwm unwaith y bydd gan yr NMC hawl i incwm; mae'n debygol y derbynnir yr incwm ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

**Incwm buddsoddiadau**

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy ac mae'n cynnwys unrhyw dreth gysylltiedig y gellir ei hadennill. Datgelir incwm buddsoddiadau mewn perthynas â grantiau a gafwyd fel incwm buddsoddiadau cyfyngedig.

**Incwm o weithgareddau elusennol**

Mae a wnelo ffioedd cofrestru ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol. Daw ffioedd cofrestru i law bob blwyddyn ond fe'u credydir i incwm yn fisol. Felly, fe'u dyrannwyd i'r flwyddyn ariannol briodol yn seiliedig ar y cysyniad o groniadau. Credydwyd ffioedd cofrestru a dilysu eraill i'r incwm ar y diwrnod derbyn.

**Incwm grant**

Cydnabyddir incwm grant fel incwm cyfyngedig a chaiff ei gydnabod pan ellir mesur hawl yn ddibynadwy. Gweler nodyn 24 am ragor o fanylion.

**ch) Adnoddau a wariwyd**

Cydnabyddir rhwymedigaethau fel gwariant cyn gynted ag y bo rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol sy'n ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw; mae'n debygol y bydd angen setliad ac y gellir mesur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Cydnabyddir gwariant ar sail croniadau gan yr eir i rwymedigaeth, yn cynnwys TAW, na ellir ei hadennill.

Mae costau gweithredu'r NMC yn cynnwys costau staff, costau llywodraethu, costau eiddo a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath i gategorïau o wariant elusennol uniongyrchol. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau eiddo yn unol â defnydd a niferoedd staff ym mhob adran a dosrennir costau TGCh a chostau eraill i adrannau ar sail briodol (er enghraifft, niferoedd staff).

**Gweithgareddau elusennol**

Ymhlith y gwariant ar weithgareddau elusennol mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r elusen sy'n cynnwys hyrwyddo safonau a datblygu polisïau, addysg, cynnal y gofrestr, addasrwydd i ymarfer a chyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd (gweler nodyn 4).

Dyrennir gwariant i'r gweithgaredd penodol pan fo'r gost yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd hwnnw. Fodd bynnag, mae cost cyfeiriad cyffredinol a gweinyddiaeth pob gweithgaredd, yn cynnwys y cyflog a gorbenion y swyddogaeth ganolog, yn cael ei dyrannu yn seiliedig ar y nifer sy'n cymryd rhan ymhob gweithgaredd fel costau cymorth. Dyrannwyd costau cymorth rhwng Costau Llywodraethu a Chostau Cymorth Eraill.

**d) Costau datblygu**

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

**dd) Cyfrifyddu cronfeydd**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

i) Cronfeydd cyfyngedig

Mae'r rhain yn gronfeydd a ddefnyddir yn unol â chyfyngiadau penodol a osodir gan roddwyr. Amlinellir nod pob cronfa gyfyngedig a'r defnydd a wneir ohoni yn nodyn 24 i'r datganiadau ariannol.

ii) Cronfeydd anghyfyngedig

Mae'r cronfeydd hyn ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion cyffredinol y sefydliad ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

**e) Asedau ar brydles**

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesau gweithredol, lle mae holl fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn perthyn i'r prydleswr i raddau helaeth, i'r datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesau.

**f) Buddiannau cyflogeion**

**Buddiannau byrdymor**

Caiff buddiannau byrdymor gan gynnwys tâl gwyliau eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y derbyniwyd y gwasanaeth ynddo.

**Buddiannau terfynu cyflogai**

Rhoddir cyfrif am fuddiannau terfynu ar sail croniadau ac yn unol ag FRS 102.

**Costau pensiwn**

Darperir buddiannau pensiwn drwy gynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig. Ariennir y ddau gynllun drwy gyfraniadau gan yr NMC a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaethau pensiwn, sydd ar wahân i'r NMC yn ariannol.

Gwneir taliadau i'r cynllun buddiannau diffiniedig yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid sy'n meddu ar gymwysterau proffesiynol, a chyfrifir am gostau pensiwn y cynllun buddiannau diffiniedig ar sail codi cost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r NMC yn cael budd o wasanaeth y cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

Gwneir taliadau i'r cynllun cyfraniadau diffiniedig ar sail cyfraniadau canrannol penodedig gan yr NMC a chyflogeion, a chodir y costau i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi.

**ff) Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnach a dyledwyr eraill ar y swm setlo sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Pennir gwerth rhagdaliadau ar y swm a ragdalwyd ar ôl unrhyw ddisgownt masnach dyledus.

**g) Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo**

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau hylif iawn byrdymor sydd ag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif adnau neu gyfrif tebyg.

**h) Credydwyr a darpariaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau lle mae gan yr elusen rwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd fwy na thebyg yn arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti a gellir mesur y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod ar eu swm setlo ar ôl cyfrif am unrhyw ddisgownt masnach sy'n ddyledus.

## 2. Incwm ffioedd

| | **Cyfanswm 2016 £'000** | Cyfanswm a ailddatganwyd 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd cofrestru | **77,415** | 68,437 |
| Ffioedd eraill | **2,002** | 1,484 |
| | **79,417** | 69,921 |

## 3. Incwm buddsoddiadau

| | **Digyfyngiad £'000** | **Cyfyngedig £'000** | **Cyfanswm 2016 £'000** | Cyfanswm a ailddatganwyd 2015 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llog derbyniadwy o adneuon banc | **617** | **26** | **643** | 641 |
| | **617** | **26** | **643** | 641 |

## 4. Gweithgareddau elusennol

| | Digyfyngiad | Cyfyngedig | Cyfanswm 2016 | Cyfanswm a ailddatganwyd 2015 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **4,124** | **-** | **4,124** | 3,787 |
| Addysg | **2,048** | **-** | **2,048** | 1,894 |
| Cynnal y gofrestr | **9,144** | **584** | **9,728** | 8,885 |
| Addasrwydd i ymarfer | **52,920** | **5,169** | **58,089** | 59,178 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **2,355** | **-** | **2,355** | 1,786 |
| Cyfanswm | **70,591** | **5,753** | **76,344** | 75,530 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol,[22] costau staff a gorbenion cysylltiedig.

## 5. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

| | Costau staff | Dibrisiant | Costau eraill | Cyfanswm 2016 | Cyfanswm a ailddatganwyd 2015 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gweithgareddau elusennol: | | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **2,351** | **69** | **1,704** | **4,124** | 3,787 |
| Addysg | **678** | **45** | **1,325** | **2,048** | 1,894 |
| Cynnal y gofrestr | **5,274** | **265** | **4,189** | **9,728** | 8,885 |
| Addasrwydd i ymarfer | **24,483** | **2,964** | **30,642** | **58,089** | 59,178 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **999** | **47** | **1,309** | **2,355** | 1,786 |
| | **33,785** | **3,390** | **39,169** | **76,344** | 75,530 |

[22] Gweler y nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 5.

## 6. Dadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

| | Gweithgareddau a gyflawnwyd yn uniongyrchol £'000 | Costau cymorth £'000 | Cyfanswm 2016 £'000 | Cyfanswm a ailddatganwyd 2015 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | |
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **3,439** | **685** | **4,124** | 3,787 |
| Addysg | **1,604** | **444** | **2,048** | 1,894 |
| Cynnal y gofrestr | **7,113** | **2,615** | **9,728** | 8,885 |
| Addasrwydd i ymarfer | **45,450** | **12,639** | **58,089** | 59,178 |
| Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **1,886** | **469** | **2,355** | 1,786 |
| **Cyfanswm** | **59,492** | **16,852** | **76,344** | 75,530 |

## 7. Costau cymorth yn cynnwys costau llywodraethu

Ymhlith y dadansoddiad o gostau llywodraethu mae:

| | Cyfanswm 2016 £'000 | Cyfanswm a ailddatganwyd 2015 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **267** | 272 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - haysmacintyre | **24** | 26 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | **5** | 5 |
| Ffi broffesiynol (gan gynnwys ffi flynyddol PSA) | **1,738** | 369 |
| Costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau) | **2,055** | 1,680 |
| **Cyfanswm** | **4,088** | 2,352 |

## 8. Dadansoddi costau cymorth

| **Cost cymorth** | **Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau** | **Addysg** | **Cynnal y gofrestr** | **Cymhwyster i ymarfer** | **Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd** | **Cyfanswm 2016** | Cyfanswm a Ailddatganwyd 2015 | Sail y dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | |
| Cyfleusterau | **31** | **20** | **118** | **570** | **21** | **760** | 668 | Nifer |
| Cyllid | **118** | **76** | **449** | **2,172** | **81** | **2,896** | 2,110 | Nifer |
| Adnoddau Dynol | **124** | **80** | **472** | **2,283** | **85** | **3,044** | 2,515 | Nifer |
| TGCh | **169** | **110** | **645** | **3,116** | **116** | **4,156** | 3,109 | Nifer |
| Swyddfa'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd | **35** | **23** | **135** | **653** | **24** | **870** | 551 | Nifer |
| Llywodraethu | **166** | **108** | **635** | **3,066** | **113** | **4,088** | 2,352 | Nifer |
| Rheoli a gweinyddu | **42** | **27** | **161** | **779** | **29** | **1,038** | 813 | Nifer |
| | **685** | **444** | **2,615** | **12,639** | **469** | **16,852** | 12,118 | |

## 9. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd yn ôl categori cost

| | 2016<br>£'000 | 2015<br>£'000 | Manylion (gweler isod) |
|---|---|---|---|
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 33,785 | 28,470 | 9.1 |
| Costau staff eraill | 1,072 | 1,055 | 9.2 |
| Taliadau cyllid | 555 | 407 | |
| Safleoedd | 3,549 | 3,564 | |
| Yswiriant | 141 | 142 | |
| Eitemau amrywiol, dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw | 206 | 244 | |
| Llogi cyfarpar | 12 | 10 | |
| Cymhwyster i Ymarfer | 19,439 | 25,513 | 9.3 |
| Apeliadau cofrestru | 266 | 112 | 9.4 |
| Dibrisiant | 3,390 | 3,424 | |
| Colled ar waredu cyfarpar | 137 | 54 | |
| Dadfeiliadau | (445) | 312 | 9.5 |
| Arlwyo ar gyfer gwrandawiadau a chyfarfodydd addasrwydd i ymarfer | 565 | 675 | |
| Ffreutur y staff | 199 | 115 | |
| Sicrhau ansawdd addysg | 995 | 1,119 | 9.6 |
| Ffioedd proffesiynol | 5,956 | 3,880 | 9.7 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - haysmacintyre | 24 | 26 | |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 5 | 5 | |
| Datblygu TG a chymorth TG | 3,232 | 3,141 | 9.8 |
| Tâl postio | 734 | 894 | |
| Cost argraffu a deunydd ysgrifennu | 411 | 556 | |
| Recriwtio | 570 | 307 | 9.9 |
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | 51 | 122 | 9.10 |
| Argraffu a phostio cyhoeddiadau'r NMC | 221 | 550 | 9.11 |
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | 267 | 272 | |
| Costau pwyllgorau | 23 | 21 | |
| Costau cymorth eraill | 984 | 540 | 9.12 |
| | **76,344** | **75,530** | |

## Manylion ychwanegol ar gyfer y tabl yn nodyn 9

### 9.1 Cyflogau a chostau cysylltiedig

Manylir ar y costau hyn yn Nodyn 9 i'r cyfrifon.

Mae costau cyflogau staff wedi cynyddu yn 2015-2016 o ganlyniad i gynnydd yn nifer y staff a gyflogir a lefelau cyflog uwch o gymharu â 2014-2015. Yn 2015–2016 cynyddodd

nifer y staff ym maes Addasrwydd i Ymarfer yn bennaf er mwyn sicrhau y cyflawnwyd y llwyth achos targed o ran ymchwiliadau mewnol, lansio'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn ogystal â buddsoddi mewn prosesau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau.

Gwnaeth yr NMC ddyfarniad cyflog o 1 y cant i staff cymwys. Rhoddwyd trydedd cam yr adolygiad o gyflogau a graddfeydd y sefydliad cyfan ar waith o fis Ebrill 2015, a gododd lefel cyflog pob aelod o staff cymwys fel ei fod o fewn 7.5 y cant i lefel ganolrifol wedi'i meincnodi'r farchnad.

Cynyddodd costau diswyddo o flwyddyn i flwyddyn yn unol ag ymadawiad staff o'r uwch dîm rheoli.

Defnyddiwyd adnodd contractwyr arbenigol ym mhob rhan o'r NMC, yn enwedig ym maes TGCh, ac er mwyn cefnogi prosiectau rheoleiddio penodol gan gynnwys datblygu system rheoli achosion a wnaiff hwyluso gwell prosesau ymchwilio a chasglu gwybodaeth.

Hefyd, cafodd staff dros dro eu cyflogi ym maes Addasrwydd i Ymarfer, er mwyn llenwi swyddi gwag yn sgil trosiant staff.

### 9.2 Costau staff eraill

Mae costau staff eraill yn cynnwys costau teithio, costau hyfforddi a chostau datblygu staff.

Roedd costau teithio staff yn llai, yn bennaf ym maes Addasrwydd i Ymarfer, yn sgil gwell defnydd o leoliadau mewnol ar gyfer gwrandawiadau a gwell gwaith cynllunio adnoddau mewn perthynas â staff gwrandawiadau mewn lleoliadau yn y pedair gwlad.

Roedd buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu staff yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol yn 2015-2016, er mwyn helpu i gadw a datblygu staff ym mhob rhan o'r sefydliad. Ynghyd â'r cynnydd mewn niferoedd staff a galw, mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi cynnig mwy o gyrsiau hyfforddi mewnol yn ogystal â threfnu mwy o gyrsiau hyfforddi a arweinir yn allanol.

### 9.3 Addasrwydd i Ymarfer

Ceir manylion am weithgarwch Addasrwydd i Ymarfer yn ystod y flwyddyn yn yr adran o'r adroddiad blynyddol sy'n ymwneud ag adolygu perfformiad. Bu gostyngiad mewn costau o flwyddyn i flwyddyn a oedd yn cyd-fynd â'r gostyngiad yn nifer y diwrnodau gwrando yn 2015-2016, ar y cyd â mwy o arbedion effeithlonrwydd; sef dewisiadau amgen i wrandawiadau llawn a chynnal ymchwiliadau achos yn fewnol.

### 9.4 Apeliadau cofrestru

Bu cynnydd yn nifer yr apeliadau Cofrestru yn 2015–2016 a arweiniodd at gostau uwch o gymharu â 2014–2015. Deilliodd y cynnydd hwn o gyflwyno proses newydd lle mae'r Cofrestrydd yn gofyn i bob nyrs a bydwraig a hyfforddwyd yn y DU a yw byth wedi cael rhybudd neu gollfarn, ar ei chais cofrestru cychwynnol.

## 9.5 Dadfeiliadau

Bu taliadau dadfeiliadau is yn 2015–2016 o ganlyniad i ryddhau darpariaethau yn ymwneud â One Kemble Street a The Old Bailey. Nid oedd y darpariaethau hyn yn ofynnol mwyach yn sgil ailnegodi contract One Kemble Street a diwedd contract Old Bailey.

## 9.6 Sicrhau ansawdd addysg

Cafwyd taliadau sicrhau ansawdd is yn sgil llai o waith monitro ac adolygiadau eithriadol. Golygodd y galw am nifer fawr o estyniadau i raglenni fod angen llai o gymeradwyaethau, yn enwedig ym meysydd hyfforddiant adolygu a datblygu adnodd technolegol.

## 9.7 Ffioedd proffesiynol

Ceisiwyd cyngor proffesiynol a chyfreithiol allanol yn 2015-2016 er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad mewn nifer o feysydd ar draws y sefydliad. Cyflogwyd ymgynghorwyr i lywio'r gwaith o dreialu a gweithredu'r model ailddilysu, y prosesau cofrestru newydd ar gyfer ymgeiswyr o'r tu allan i'r AEE, cyflawni cynllun gwella TBS, a'r rhaglen waith sy'n ymwneud â rhoi'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ar waith. Hefyd cafwyd cyngor proffesiynol ar gyfer adolygiad sefydliadol, datblygu strategaeth ariannol, rhoi'r weithdrefn adfer ar ôl trychineb ar waith a chynnal adolygiad cychwynnol o lety.

2015–2016 oedd y flwyddyn gyntaf lle bu'n rhaid i'r NMC dalu lefi PSA, felly nid aethpwyd i gostau tebyg yn 2014–2015.

## 9.8 Datblygu TG a chymorth TG

Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd yn nifer y defnyddwyr ym mhob rhan o'r NMC a'r angen cynyddol am adnoddau storio.

## 9.9 Recriwtio

Aethpwyd i fwy o gostau yn sgil trosiant staff, sydd wedi aros yn gyson drwy gydol 2015-2016, ar y cyd â mwy o alw i recriwtio i rolau lefel uwch wrth i'r sefydliad fynd drwy broses o drawsnewid.

## 9.10 Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd

Gellir priodoli'r gostyngiad i'r ffaith na chafwyd cynhadledd staff yn 2015-2016.

## 9.11 Argraffu a dosbarthu cyhoeddiadau'r NMC

Yn 2014–2015 aethpwyd i gostau argraffu a phostio am fod copi o'r Cod diwygiedig wedi cael ei anfon i bob nyrs a bydwraig gofrestredig. Gwelir costau is o flwyddyn i flwyddyn am na wnaed hyn yn 2015-2016.

## 9.12 Costau cymorth eraill

Ceir costau uwch yn sgil y gwariant ychwanegol ar gyfathrebu ailddilysu yn deillio o mwy o ffocws ar weithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu a oedd yn bwynt dysgu allweddol o gynnal y cynllun peilot ailddilysu.

## 10. Gwybodaeth am gyflogeion

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Cyflogau a chostau cysylltiedig** | | |
| Cyflogau:[23] | | |
| Uwch Dîm Rheoli | **852** | 756 |
| Aelodau eraill o staff | **21,090** | 17,284 |
| Cyfanswm | **21,942** | 18,040 |
| Costau nawdd cymdeithasol (Cyfraniadau YG Cyflogeion): | | |
| Uwch Dîm Rheoli | **94** | 93 |
| Aelodau eraill o staff | **1,959** | 1,459 |
| Cyfanswm | **2,053** | 1,552 |
| Costau pensiwn - staff presennol:[24] | | |
| Uwch Dîm Rheoli | **151** | 155 |
| Aelodau eraill o staff | **3,683** | 2,326 |
| Cyfanswm | **3,834** | 2,481 |
| Costau pensiwn - staff ymddeoledig sefydliadau blaenorol[25] | **29** | 27 |
| Staff dros dro a staff contractwyr: | | |
| Uwch Dîm Rheoli | **609** | - |
| Gweinyddu | **5,149** | 6,325 |
| Cyfanswm | **5,758** | 6,325 |
| Taliadau terfynu | | |
| Uwch Dîm Rheoli | **67** | - |
| Aelodau eraill o staff | **102** | 45 |
| Cyfanswm | **169** | 45 |
| Cyfanswm | **33,785** | 28,470 |

[23] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 9.1.
[24] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21.
[25] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 21.

**Gwybodaeth am yr uwch dîm rheoli**

Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr. Yn 2015–2016 talwyd cyfanswm o £1,679,332 i'r tîm Gweithredol (£925,165 yn 2014–2015). O'r swm hwn, talwyd £1,070,439 i aelodau parhaol y tîm Gweithredol (o gymharu â £910,909 yn 2014–2015). Yn 2015–2016, roedd hyn yn cynnwys £726,728 mewn cyflogau, £10,974 mewn taliadau eraill, £89,612 mewn taliadau yn lle rhybudd, £67,230 mewn taliadau diswyddo, £24,815 mewn taliadau bonws a £151,080 mewn cyfraniadau pensiwn. Cost aelodau dros dro y tîm Gweithredol yn 2015–2016 oedd £608,893 (o gymharu â £14,256 yn 2014–2015). Noder i un cyfarwyddwr weithio rhan o'r flwyddyn ac felly roedd islaw'r terfynau adrodd:

| **Bandiau cyflog** (£) | **2016** **Nifer y staff** | 2015 Nifer y staff |
|---|---|---|
| 80,000 - 90,000 | **1** | - |
| 110,001 - 120,000 | **-** | 3 |
| 120,001 - 130,000 | **1** | 2 |
| 130,001 - 140,000 | **2** | - |
| 140,001 - 150,000 | **1** | - |
| 150,001 - 160,000 | **-** | - |
| 160,001 - 170,000 | **1** | 1 |

Yn ystod y flwyddyn, roedd benthyciadau ar gyfer tocynnau tymor a wnaed i gyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | **2016** **£** | 2015 £ |
|---|---|---|
| S Page | **1,001-1,500** | 1,001-1,500 |
| A Sansome | **5,001-5,500** | 5,001-5,500 |
| K Kolyva | **3,501-4,000** | 3,501-4,000 |
| J Billings | **6,001-6,500** | 2,501-3,000 |
| T Kirkbride | **7,501-8,000** | 7,001-7,500 |

Roedd cyfanswm y pensiynau a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2015 ar gyfer y cyfarwyddwyr hynny sy'n rhan o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yr NMC fel a ganlyn:

| **Cyfanswm y pensiynau a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth** (£) | **2016** **Nifer y staff** | 2015 Nifer y staff |
|---|---|---|
| 0 - 5,000 | **-** | 2 |
| 5,001 - 10,000 | **3** | - |
| 10,001 - 15,000 | **1** | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| 15,001 - 20,000 | **-** | - |
| 20,001 - 25,000 | **-** | 1 |
| 25,001 - 30,000 | **1** | - |

Mae'r cyfarwyddwyr yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn yr NMC

Yn ystod 2015–2016 gwnaed cyfraniadau cyflogwyr i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar ran dau gyfarwyddwr, a oedd yn werth £11,889 (2014–2015: £8,245).

Darperir y pensiwn buddiannau diffiniedig drwy gynllun (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Rhydd y cynllun fuddiannau ar sail 'cyflog terfynol' ar oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, gall aelodau ddewis cyfnewid rhan o'u pensiwn am gyfandaliad di-dreth. Gallant hefyd dderbyn llai o bensiwn er mwyn darparu pensiwn i enwebai sy'n goroesi. Os bydd unigolyn yn marw o fewn pum mlynedd i'r adeg y gwnaeth ymddeol, telir cyfandaliad sy'n unol â balans y pensiwn y byddai'r pensiynwr wedi'i gael petai wedi byw am bum mlynedd ar ôl ymddeol.

Os bydd aelod yn marw mewn gwasanaeth, mae cyfandaliad yn cyfateb i ddwywaith y cyflog pensiynadwy yn daladwy a chaiff holl gyfraniadau'r aelod eu dychwelyd ynghyd â llog di-dreth cyfansawdd o 3 y cant y flwyddyn. Os bydd cyflogai presennol yn marw a bod ganddo gymar sy'n goroesi, telir pensiwn sy'n 1/160 o'r cyflog pensiynadwy hefyd, am bob blwyddyn o wasanaeth y gallai'r aelod fod wedi'i chwblhau hyd at oedran pensiwn arferol.

Gellir ymddeol am resymau meddygol os bydd analluogrwydd parhaol. Yn yr achos hwn telir pensiynau ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd.

Mae'r NMC hefyd yn gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar gyfer ei staff drwy The People’s Pension. Cyfrifir am y costau hyn yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fyddant yn ddyledus. Cyfraniad sylfaenol y cyflogwr yn 2014-2015 oedd 5 y cant a chyfraniad sylfaenol staff oedd 1 y cant. Ni chaniateir i aelodau o staff fod yn aelodau o'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig.

**Gwybodaeth arall am gyflogeion**

Yn ogystal â'r uchod, roedd 35 (2014–2015: 23) o aelodau eraill o staff yr oedd eu cydnabyddiaeth yn dod o dan y bandiau canlynol:

| | **2016**<br>**Nifer y staff** | 2015<br>Nifer y staff |
|---|---|---|
| £60,001 - £70,000 | **18** | 9 |
| £70,001 - £80,000 | **11** | 10 |
| £80,001 - £90,000 | **5** | 3 |
| £90,001 - £100,000 | **1** | 1 |

Cyflogwyd 613 o gyflogeion ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (uwch dîm rheoli 7 ac aelodau eraill o staff 606) ac yn y flwyddyn flaenorol cyflogwyd 545 (uwch dîm rheoli 6 ac aelodau eraill o staff 539). Gellir priodoli'r cynnydd yn nifer y staff i'r angen am staff ychwanegol yn ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer (gweler nodyn 9.1).

## 11. Incwm net/(gwariant) am y flwyddyn

Nodir hyn ar ôl codi:

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Prydlesau gweithredu | | |
| Cyfarpar | **4** | 3 |
| Adeiladau | **1,840** | 1,729 |
| | | |
| Cydnabyddiaeth yr archwilwyr | | |
| haysmacintyre | **24** | 26 |
| NAO | **5** | 5 |
| | | |
| Dibrisiant | **3,390** | 3,424 |

## 12. Trethu

O ganlyniad i'w statws elusennol nid oes rhaid i'r NMC dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol. Nid oes rhaid iddo ychwaith dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw asedau a gaiff eu gwerthu lle y defnyddir yr elw at ddibenion elusennol.

## 13. Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

| | Dodrefn | Cyfarpar | 23PP Safle lesddaliad hir nodyn | 23PP Adnewyddu adeilad | Adnewyddu Adeiladau AiY | Prosiectau TG nodyn | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| Cost: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2015 | 543 | 8,015 | 15,448 | 5,620 | 6,501 | 3,388 | **39,515** |
| Ychwanegiadau | - | 2,741 | - | - | (11) | - | **2,730** |
| Gwarediadau | - | (137) | | | - | | **(137)** |
| Ailbrisio | - | - | - | - | - | - | **-** |
| 31 Mawrth 2016 | 543 | 10,619 | 15,448 | 5,620 | 6,490 | 3,388 | **42,108** |
| Dibrisiant: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2015 | 275 | 4,785 | 352 | 4,446 | 2,272 | 3,388 | **15,518** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 39 | 1,680 | 352 | 550 | 769 | - | **3,390** |
| Wedi'u dileu wrth werthu | - | - | - | - | - | - | **-** |
| Addasiad ailbrisio | - | - | | - | - | - | - |
| 31 Mawrth 2016 | 314 | 6,465 | 704 | 4,996 | 3,041 | 3,388 | **18,908** |
| Gwerth llyfr net | | | | | | | |
| 31 Mawrth 2015 | 268 | 3,230 | 15,096 | 1,174 | 4,229 | - | 23,997 |
| **Gwerth llyfr net ar** | | | | | | | |
| **31 Mawrth 2016** | **229** | **4,154** | **14,744** | **624** | **3,449** | **0** | **23,200** |

## 13. Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen - parhad

13.1 Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd yr NMC) y buddiant lesddaliadol yn 23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Daw'r brydles i ben yn y flwyddyn 2933. Prisiwyd y brydles ar 31 Mawrth 2014 ar sail defnydd presennol, gan briswyr allanol Carter Jonas, a nodwyd ei bod yn werth £17,185,000. Dylid nodi bod cyfamod cyfyngol ar y brydles.

13.2 Mae'r categori asedau prosiectau TG yn cynnwys y system rheoli achosion Addasrwydd i Ymarfer a'r gwaith o wella'r seilwaith TGCh, a gwblhawyd yn ystod 2009-2010.

13.3 Mae cyfarpar yn cynnwys cost seilwaith, caledwedd a meddalwedd TG. Mae'r prif ychwanegiad yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â datblygu porth a microsafle ar-lein ar gyfer cyflwyno ein rhaglen Ailddilysu a chynnwys cysylltiedig (£0.8m). Ymhlith ychwanegiadau eraill yn ystod y flwyddyn roedd datblygu system a gwneud gwelliannau mewn perthynas â "gwybodaeth fusnes" (£0.1m), ein system rheoli achosion (£0.5m), gwasanaethau cofrestru tramor (£0.2m) gweithredu cyfarwyddeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol ar y Cyd yr UE (£0.5m) a chyflwyno taliadau graddol i gofrestryddion yn y dyfodol (£0.5m).

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r NMC yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur y gydberthynas rhwng y CNB a'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad yw'n atebol i'r Adran Iechyd, mae'r CNB mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, talwyd cyfanswm o £48,000 i'r sawl oedd yn dal swydd y Cadeirydd (2014-2015: £48,000).

Yn ystod y flwyddyn, talwyd lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth gwerth £267,000 (2014-2015: £272,000) i aelodau'r Cyngor neu aethpwyd i'r costau hyn mewn perthynas â hwy.

Telir aelodau’r Cyngor yn uniongyrchol drwy gyflogres yr NMC.

Nodir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor ar dudalen 23 o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth.

Gwnaed croniad o £28,009 (2014–2015: £22,771) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol posibl mewn perthynas â thaliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau.

## 15. Dyledwyr

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dyledwyr | 222 | 499 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,352 | 1,638 |
| | 3,574 | 2,137 |

## 16. Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Credydwyr eraill a chroniadau | 8,529 | 9,844 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cofrestru ar gyfer 2015-2016 | - | 41,857 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cofrestru ar gyfer 2016-2017 | 48,041 | - |
| | 56,570 | 51,701 |

## 17. Darpariaethau: Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2016 | 2015 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dadfeiliadau | - | 361 |
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar[26] | 67 | 67 |
| | 67 | 428 |

## 18. Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | 2016 | 2015 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | Ffioedd cofrestru ar gyfer 2017-2018 | 156 | 118 |
| Premiwm prydles | | 427 | 426 |
| | | 583 | 544 |

Mae a wnelo incwm gohiriedig â ffioedd cofrestru a ragdalwyd, ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

[26] Yn ystod 2012-2013 daeth y ddarpariaeth yn y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer ymddeol yn gynnar ar sail analluogrwydd parhaol i rym mewn perthynas â chyflogai. Penderfynwyd ar y swm a oedd yn daladwy gan Actwari'r Cynllun ac fe'i cymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Cydnabuwyd y swm llawn o £513k yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn 2012–2013. Gwneir taliadau i'r Cynllun bob mis gan gychwyn ym mis Rhagfyr 2012. Ym mis Mawrth 2016, roedd £283k yn weddill yn y ddarpariaeth ar gyfer blynyddoedd i ddod.

## 19. Darpariaethau: Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Dadfeiliadau | **309** | 388 |
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar[27] | **216** | 278 |
| | **525** | 666 |

## 20. Statws elusennol

Ar 27 Mawrth 2002, cofrestrwyd yr NMC ar Gofrestr Ganolog yr Elusennau (rhif elusen 1091434). Yn sgil hyn caniatawyd rhyddhad ardrethi gan Ddinas Westminster. Mae'r statws hwn yn rhoi buddiannau treth hefyd[28]. Ar 18 Mehefin 2007, cofrestrwyd yr NMC â Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

## 21. Ymrwymiadau pensiwn

Mae'r NMC yn gweithredu dau gynllun pensiwn: cynllun buddiannau diffiniedig a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae'r NMC yn cymryd rhan mewn cynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ar y cyd â'r Adran Iechyd (cynllun pensiwn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a Chyflogwyr Cysylltiedig, rhif cofrestru'r cynllun 101652586) a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited. Tynnodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac NHS Education for Scotland, a oedd yn gyfranogwr blaenorol, yn ôl o'r cynllun yn ystod 2013 a 2015 yn y drefn honno. Mae'r cynllun, yr oedd tua 25 y cant o gyflogeion y CNB yn aelodau ohono ar 31 Mawrth 2016, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau i'r cynllun i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y fath fodd ag i ledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actwari cymwysedig ar sail prisiadau bob tair blynedd.

Cwblhawyd y prisiad diweddaraf o'r cynllun ar ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2013, gan ddefnyddio'r dull unedau rhagamcanol o brisio. Ar ddyddiad y prisiad, roedd asedau'r cynllun yn werth £94.9 miliwn (gan gynnwys blwydd-daliadau a ddelir gan bensiynwyr yswiriedig). Roedd gwerth yr asedau yn cyfrif am 86 y cant o werth y buddiannau, a oedd wedi cronni i aelodau ar ôl caniatáu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg asedau mewn perthynas â gwasanaethau yn y gorffennol yn cael ei amorteiddio dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd enillion gwirioneddol o fuddsoddiadau uwchlaw cynnydd o 1.05 y cant y flwyddyn mewn cyflogau ac uwchlaw cynnydd o 0.55 y cant a -0.15 y cant y flwyddyn mewn pensiynau ar gyfer y rhai nad ydynt yn bensiynwyr a phensiynwyr, yn y drefn honno.

[27] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 17, troednodyn 26.
[28] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 12.

Pe bai'r cynllun wedi cael ei ddirwyn i ben ar y dyddiad prisio (31 Mawrth 2013), byddai'r asedau wedi cyfrif am tua 69 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i fodloni buddiannau cronedig aelodau gweithredol a'r rhai sydd wedi gadael y cynllun a buddiannau cyfredol pensiynwyr. Byddai'r diffyg amcangyfrifedig wedi bod yn £45.3 miliwn.

Mae cynllun adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraidd cyfredol, erbyn 31 Mawrth 2023. Bydd yr NMC yn unioni'r diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023 drwy wneud taliadau o dan y Cynllun Adfer sy'n cyfateb i £983k y flwyddyn, gyda chynnydd o 3.65 y cant bob mis Ebrill (cymhwysir y cynnydd cyntaf o'r fath ym mis Ebrill 2015).

Seiliwyd prisiad FRS102 ar asesiad llawn o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Mawrth 2016.

Cydnabyddwyd enillion a cholledion actiwaraidd yn y cyfnod y gwnaethant ddigwydd (ond y tu allan i'r datganiad o weithgareddau ariannol) drwy'r datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig.

**Symiau a gydnabyddwyd yn y fantolen**

| | 2016<br>£'000 | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar eu gwerth teg | 59,355 | 52,638 |
| Gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (71,980) | (69,105) |
| **Gwarged\(diffyg)** | (12,625) | (16,467) |
| Rhyddhad treth gohiriedig cysylltiedig | - | - |
| **Rhwymedigaeth net** | (12,625) | (16,467) |

**Symiau a gydnabyddwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SoFA)**

| | 2016<br>£'000 | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost gwasanaeth bresennol | (3,242) | (2,520) |
| Cost gwasanaeth flaenorol | - | - |
| Elw disgwyliedig ar asedau cynllun (nawr o fewn "Llog Net") - **B** | 1,774 | 2,023 |
| Cwtogiad | - | - |
| Setliad | (3) | (3) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn (nawr o fewn "Llog Net") - **A** | (2,319) | (2,441) |
| Llog Net **A** + **B** | (545) | (418) |
| **Swm net a gydnabyddwyd yn y SoFA** | (3,790) | (2,941) |

**Cysoni gwerth presennol rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig**

| | 2016<br>£'000 | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2015** | **69,105** | **54,083** |
| Cost gwasanaeth bresennol | 3,242 | 2,520 |
| Cost gwasanaeth flaenorol | - | - |
| Cwtogiad | - | - |
| Setliadau | (15) | (20) |
| Cost llog | 2,319 | 2,441 |
| Cyfraniad cyflogeion | 480 | 516 |
| (Elw)\colledion actiwaraidd | (1,794) | 10,952 |
| Newidiadau i gyfraddau cyfnewid | - | - |
| Buddiannau a dalwyd | (1,357) | (1,387) |
| **Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2016** | **71,980** | **69,105** |

**Cysoni asedau cynllun gwerth teg**

| | 2016<br>£'000 | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2015** | **52,638** | **44,161** |
| Elw disgwyliedig ar asedau | 1,774 | 2,023 |
| Elw)\(colledion) actiwaraidd | 2,408 | 3,446 |
| Newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid | - | - |
| Cyfraniad cyflogwyr | 3,429 | 3,902 |
| Cyfraniad cyflogeion | 480 | 516 |
| Setliadau | (17) | (23) |
| Buddiannau a dalwyd | (1,357) | (1,387) |
| **Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2016** | **59,355** | **52,638** |

**Cysoni newid mewn statws ariannu**

| | 2016<br>£'000 | 2015<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans agoriadol ar 31 Mawrth 2015** | (16,467) | (9,922) |
| Costau pensiwn | (3,790) | (2,941) |
| Cyfraniad cyflogwyr | 3,429 | 3,902 |
| Newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid | - | - |
| Elw)\(colledion) actiwaraidd | 4,202 | (7,506) |
| **Balans adeg cau ar 31 Mawrth 2016** | **(12,625)** | **(16,467)** |

**Elw gwirioneddol ar asedau cynllun**

| | | |
|---|---|---|
| | **4,182** | **5,469** |

**Hanes o addasiadau profiad**

| | 2016 £'000 | 2015 £'000 | 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | (71,980) | (69,105) | (54,083) |
| Asedau cynllun | 59,355 | 52,638 | 44,161 |
| **Gwarged\(diffyg)** | **(12,625)** | **(16,467)** | **(9,922)** |
| | | | |
| Addasiadau profiad ar rwymedigaeth cynllun | 1,152 | 1,044 | (3,304) |
| Addasiadau profiad ar asedau cynllun | 2,408 | 3,446 | (1,846) |

**Cyfraniad disgwyliedig yn y flwyddyn ganlynol**

| | Ar 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|
| Cyflogwr | 3,258 |
| Cyflogai | 451 |
| Cyfanswm | **3,709** |

Nodir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid cymwysedig annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaethau o dan FRS102 isod.

| | **2016 y flwyddyn** | **2015 y flwyddyn** | **Disgwyliad oes (yn 60 oed)** | **Blynyddoedd** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfradd disgownt | 3.45% | 3.30% | Dynion a aned 1956 | 28.7 |
| Chwyddiant prisiau manwerthu | 3.40% | 3.40% | Menywod a aned 1956 | 31.3 |
| Chwyddiant prisiau defnyddwyr | 2.60% | 2.60% | Dynion a aned 1976 | 32.0 |
| Cynnydd mewn pensiwn | 3.40% | 3.40% | Menywod a aned 1976 | 34.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Elw disgwyliedig ar asedau | 3.45% | 3.30% |

Cyflwynodd yr NMC gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig y gallai staff ymuno ag ef yn wirfoddol o 1 Tachwedd 2013, a weithredir gan The People's Pension. Cyfrannodd yr NMC gyfradd sylfaenol o 5 y cant o gyflog pensiynadwy yn ystod 2015-2016 (2014-2015 4 y cant) a chyfradd gyfrannu sylfaenol y cyflogai oedd 1 y cant. Gall cyflogeion wneud cyfraniadau ychwanegol a bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol hyd at uchafswm cyfraniad y cyflogwr, sef 12 y cant. Mabwysiadwyd y cynllun hwn fel cynllun awto-gofrestru ar gyfer yr NMC o 1 Ebrill 2014.

| | **2016** | 2015 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyfraniadau'r CNB (cyflogwr) at y cynllun cyfraniadau diffiniedig a wnaed yn ystod y flwyddyn | **656** | 315 |
| | **656** | 315 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfraniad yr NMC (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig | **29.2%** | 27.4% |
| Cyfraniad cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig | **6%** | 6% |
| Cyfraniad sylfaenol y CNB (cyflogwr) at y cynllun buddiannau diffiniedig | **5%** | 4% |
| Cyfraniad sylfaenol cyflogeion at y cynllun buddiannau diffiniedig | **1%** | 1% |

Mae'r NMC yn talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau a wnaeth ei ragflaenu nad ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn yr NMC. Telir y costau hyn pan fydd achos yn codi ac fe'u codir i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn unol â hynny. Yn 2015–2016 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £29,000 (2014–2015: £27,000).

## 22. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2016, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar ei gyfer, nac ychwaith unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol (2015 dim).

## 23. Ymrwymiadau prydles gweithredu

Ar 31 Mawrth 2016 roedd gan yr NMC y taliadau prydles gweithredu gofynnol canlynol yn y dyfodol:

| | **Tir ac adeiladau** | | **Offer a pheiriannau** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2016** | 2015 | **2016** | 2015 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben: | | | | |
| • O fewn blwyddyn | **2,317** | 2,322 | **-** | 3 |
| • Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | **7,101** | 8,395 | **-** | - |
| • Mwy na phum mlynedd | **2,146** | 2,901 | **-** | - |

Mae'r NMC yn prydlesu eiddo yn 61 Aldwych, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 10 Medi 2019, Clarendon House (llawr daear a chyntaf), 114–116 George Street, Caeredin, ar gyfer y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021, 1 Kemble Street, Llundain, ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Rhagfyr 2019 a 2 Stratford Place ar gyfer y cyfnod hyd at 21 Gorffennaf 2024.

## 24. Symudiad mewn cronfeydd cyfyngedig

| | Balans ar 1 Ebrill 2015 £'000 | Incwm £'000 | Adnoddau a wariwyd £'000 | Trosglwyddiadau £'000 | Balans ar 31 Mawrth 2016 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| AiY / adfer cronfeydd wrth gefn (i) | **5,143** | 26 | (5,169) | - | **-** |
| Prawf cymhwysedd ar gyfer ymgeiswyr o dramor (ii) | **379** | 205 | (584) | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **5,522** | 231 | (5,753) | - | **-** |

(i) Mae'r £5,143 miliwn yn cynrychioli balans y grant o £20 miliwn. Fe'i darparwyd gan yr Adran Iechyd er mwyn cynnig y sefydlogrwydd ariannol i gyflawni targed dangosydd perfformiad allweddol yr NMC o ran dyfarnu Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, cael gwared ar yr ôl-groniad hanesyddol o achosion sy'n ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer erbyn mis Rhagfyr 2014, a sicrhau'r isafswm lefelau mewn cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar risg erbyn mis Ionawr 2016. Caiff y grant ei gydnabod mewn rhandaliadau misol cyfartal dros gyfnod y grant, a bydd balans y cronfeydd cyfyngedig yn lleihau yn unol â hynny bob mis, gan ddechrau ym mis Chwefror 2013, gyda'r swm terfynol yn cael ei wario ym mis Rhagfyr 2015. Yn ystod 2015–2016 cafodd £26,000 o log ei gronni o'r grant nas cydnabuwyd.

(ii) Mae'r grant o £584,000 yn cynrychioli gwariant ar gyfer 2015-2016 a gefnogwyd gan yr Adran Iechyd er mwyn helpu i gyflwyno prawf cymhwysedd ar gyfer unigolion o'r tu allan i'r AEE sy'n gwneud cais i gofrestru. Mae'r £379,000 a gariwyd ymlaen yn cynrychioli'r elfen nas gwariwyd o'r grant gwerth £2.449 miliwn a wnaed yn 2014–2015 ac mae'r £205,000 yn cynrychioli grantiau a gafwyd yn 2015–2016.

## 25. Crynodeb amlinellol o symud cronfeydd

| | Balans ar 1 Ebrill 2015 | Incwm | Adnoddau a wariwyd | Trosglwyddiadau | Enillion a cholledion ar bensiwn buddiannau diffiniedig | Balans ar 31 Mawrth 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cronfeydd digyfyngiad | **27,468** | 80,034 | (70,591) | - | 4,202 | **41,113** |
| Cronfeydd cyfyngedig | **5,522** | 231 | (5,753) | - | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **32,990** | 80,265 | (76,344) | **-** | 4,202 | **41,113** |

## 26. Asedau Net yn ôl cronfa

| | Digyfyngiad cyffredinol | Cyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Asedau sefydlog | **23,200** | **-** | **23,200** |
| Asedau cyfredol | **88,283** | **-** | **88,283** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(56,637)** | **-** | **(56,637)** |
| Rhwymedigaethau hirdymor | **(1,108)** | **-** | **(1,108)** |
| Rhwymedigaeth cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | **(12,625)** | | **(12,625)** |
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | **41,113** | **-** | **41,113** |

## 27. Trosglwyddo i FRS 102

Hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r NMC gyflwyno ei ganlyniadau o dan FRS 102 a'r SORP Elusennau diwygiedig. Cafwyd y datganiadau ariannol diwethaf o dan GAAP y DU ar 31 Mawrth 2015. Trosglwyddwyd i FRS 102 ar 1 Ebrill 2014. Nodir isod y newidiadau i bolisïau cyfrifyddu sy'n gyson â'r diffyg net ar gyfer y blynyddoedd ariannol 31 Mawrth 2015 a chyfanswm y cronfeydd wrth gefn ar 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 rhwng GAAP y DU fel y nodwyd yn flaenorol ac FRS 102.

Hefyd, mae'r NMC yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ac yn hanesyddol nid yw wedi gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun. O dan FRS17, ni ddarparodd yr NMC ar gyfer y diffyg hwn ond gwnaeth gydnabod yn y SOFA gyfraniad yr NMC at y cynllun. Hefyd, mae gan yr NMC gynllun taliadau diffyg ar waith ar gyfer diffygion hanesyddol yn y cynllun. Ar ôl i NHS Education for Scotland dynnu allan o'r cynllun yn ystod 2015-2016, gall yr NMC nodi'n fwy cadarn ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun ac felly mae wedi mabwysiadu cyfrifyddu pensiwn FRS 102 yn llawn. Ar 31 Mawrth 2015 roedd y rhwymedigaeth yn £16,467k (2014: £9,922k). O ganlyniad, mae canlyniadau'r flwyddyn flaenorol wedi cael eu hailddatgan ar ôl cyfrif am yr addasiadau trosglwyddo.

| Cysoni cronfeydd wrth gefn | Nodyn | 01-Ebr-14 £’000 | 31-Maw-15 £’000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfeydd wrth gefn a gofnodwyd yn flaenorol** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig | | 40,868 | 44,134 |
| Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig | | 12,000 | 5,522 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **52,868** | **49,656** |
| **Addasiadau FRS 102:** | | | |
| Cronni tâl gwyliau | **A** | (163) | (209) |
| Dadfeiliadau | **B** | 23 | 39 |
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar | **C** | 17 | 12 |
| Cyfnod dim rhent - prydlesau gweithredu | **CH** | - | (40) |
| **Cyfanswm addasiadau FRS 102** | | **(123)** | **(198)** |
| **Cronfeydd wrth gefn a ailddatganwyd wrth drosglwyddo i FRS 102** | | **52,744** | **49,457** |
| **Addasiad y flwyddyn flaenorol** | | | |
| Cydnabod diffyg pensiwn | **(gweler uchod)** | (9,922) | (16,467) |
| **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn a ailddatganwyd** | | **42,822** | **32,990** |

**Cysoni'r diffyg net am y flwyddyn ariannol fel y nodwyd yn flaenorol i'r hyn a ailddatganwyd**

| | 31-Maw-15 £’000 |
|---|---|
| **Symudiad net mewn cronfeydd fel y cofnodwyd yn flaenorol** | (3,212) |
| Cronni tâl gwyliau | (45) |
| Dadfeiliadau | 16 |
| Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar | (5) |
| Cyfnod dim rhent - prydlesau gweithredu | (40) |

| | |
|---|---|
| Symudiad net mewn cronfeydd o dan FRS 102 | **(3,287)** |
| **Addasiad y flwyddyn flaenorol** | |
| Cydnabod diffyg pensiwn | (6,545) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd a ailddatganwyd** | **(9,832)** |

**Nodiadau**

**A Cronni tâl gwyliau**
Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i godi buddiannau cyflogeion byrdymor ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth i'r gwasanaeth cyflogeion gael ei dderbyn. Cyn hyn nid oedd croniadau tâl gwyliau yn cael eu cydnabod a'u codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. O ganlyniad, mae'r NMC wedi cydnabod rhwymedigaeth tâl gwyliau o £45k wrth drosglwyddo i FRS 102. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014, cafodd tâl ychwanegol o £163k ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ac roedd y rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2015 yn £209k.

**B Dadfeiliadau**
Mae'r NMC yn darparu ar gyfer dadfeiliadau ar yr eiddo a ddefnyddir ganddo sy'n ddyledus ar ddiwedd y brydles. Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i endidau ddarparu disgownt ar gyfer rhwymedigaethau hirdymor er mwyn cynnig gwerth lle mae'r fath ddisgownt yn berthnasol. Wrth fabwysiadu FRS 102, mae'r NMC wedi ailddatgan ei ddarpariaethau dadfeiliadau er mwyn disgowntio pob prydles i gyfnod y brydles. O ganlyniad, lleihawyd cost dadfeiliadau £16k wrth drosglwyddo i FRS 102 (31 Mawrth 2015). Yn sgil ailddatgan y ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau, cafwyd lleihad o £23k ar 31 Mawrth 2014 a £39k ar 31 Mawrth 2015 o gymharu â balansau a gofnodwyd yn flaenorol. Gwerth y rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2015 oedd £749k.

**C Darpariaeth bensiwn - ymddeol yn gynnar**
Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i endidau gydnabod gwerth amser arian wrth fesur yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol sy'n ddyledus fwy na 12 mis ar ôl dyddiad y fantolen, lle mae'r fath ddisgowntio yn berthnasol. Daeth y ddarpariaeth yn y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer ymddeol yn gynnar ar sail analluogrwydd parhaol i rym mewn perthynas â chyflogai. Penderfynwyd ar y swm a oedd yn daladwy gan Actwari’r Cynllun ac fe'i cymeradwywyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn. Gwneir taliadau i'r Cynllun bob mis gan gychwyn ym mis Rhagfyr 2012. Fel y cyfryw, ailddatganwyd y rhwymedigaeth a nodwyd yn flaenorol er mwyn ystyried gwerth amser arian. O ganlyniad cynyddwyd y tâl pensiwn £5k wrth drosglwyddo i FRS 102 (31 Mawrth 2015). Yn sgil ailddatgan y ddarpariaeth bensiwn ymddeol yn gynnar, cafwyd lleihad o £17k ar 31 Mawrth 2014 a £12k ar 31 Mawrth 2015 o gymharu â balansau a gofnodwyd yn flaenorol. Gwerth y rhwymedigaeth ar 31 Mawrth 2015 oedd £345k.

**CH Cyfnod dim rhent - prydlesau gweithredu**
O dan GAAP y DU blaenorol, cafodd cymhellion prydles gweithredu, gan gynnwys cyfnodau dim rhent a chyfraniadau dodrefnu, eu rhannu dros y cyfnod prydles byrrach neu pan ddiwygiwyd y rhent i rent marchnad teg. Bellach, mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i gymhellion o'r fath fod yn ddyledus dros gyfnod llawn y brydles. Mae'r NMC wedi

eithrio'r prydlesau a oedd yn bodoli ar y dyddiad trosglwyddo a bydd yn parhau i gydnabod y cymhellion prydles hyn ar yr un sail ag o'r blaen. Fodd bynnag, cymhwyswyd polisi cyfrifyddu FRS 102 i'r prydlesau gweithredu newydd a drefnwyd ers 1 Ebrill 2014 (dyddiad trosglwyddo). O ganlyniad, mae cost y brydles gweithredu wedi cynyddu £40k am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015, gyda rhwymedigaeth prydles cronedig cyfatebol.

**Addasiadau eraill yn codi wrth drosglwyddo i FRS 102**

**Datganiad llif arian parod**
Mae datganiad llif arian parod yr NMC yn adlewyrchu gofynion cyflwyno FRS 102, sy'n wahanol i'r hyn a baratowyd o dan FRS 1. Hefyd, mae'r datganiad llif arian parod yn cysoni arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo lle, o dan GAAP y DU blaenorol, cysonwyd y datganiad ag arian parod.

**Ailbrisio asedau sefydlog**
O dan GAAP y DU blaenorol, roedd gan yr Elusen bolisi o ailbrisio tir ac adeiladau. Wrth drosglwyddo i FRS 102, mae'r Elusen wedi dewis defnyddio'r gwerth a ailbrisiwyd ar 31 Mawrth 2014 ar gyfer ei thir ac adeiladau fel y gost dybiedig. O ganlyniad, ni chaiff hyn unrhyw effaith ar y fantolen na'r SoFA wrth drosglwyddo. Parheir i godi am ddibrisiant yn unol â'r polisi cyfrifyddu datganedig.

## 28. Datganiad Cymharol o Weithgareddau Ariannol

| | Nodyn | Cronfeydd digyfyngiad 2015 £'000 | Cronfeydd cyfyngedig 2015 £'000 | Cyfanswm y cronfeydd 2015 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | |
| Gweithgareddau elusennol: | | | | |
| Incwm ffioedd | | 69,921 | - | 69,921 |
| Grant (Adran Iechyd) | | - | 2,642 | 2,642 |
| Buddsoddiadau | | 554 | 87 | 641 |
| **Cyfanswm** | | 70,475 | 2,729 | 73,204 |
| **Gwariant ar:** | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | | 66,827 | 8,703 | 75,530 |
| **Cyfanswm** | | 66,827 | 8,703 | 75,530 |
| **Incwm/(gwariant) net** | | 3,648 | (5,974) | (2,326) |
| **Trosglwyddiad rhwng cronfeydd** | | 504 | (504) | - |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | |
| **Enillion/(colledion) actiwaraidd ar** | | (7,506) | - | (7,506) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **gynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig** | | | |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | **(3,354)** | **(6,478)** | **(9,832)** |
| | | | |
| **Cysoni cronfeydd** | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen | 30,822 | 12,000 | 42,822 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | **27,468** | **5,522** | **32,990** |

## 29. Taliadau arbennig

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig[29] yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2016 (ni wnaed unrhyw daliadau arbennig yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015).

## 30. Digwyddiadau ôl-fantolen a rhwymedigaethau wrth gefn

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen na rhwymedigaethau wrth gefn ar ddyddiad y fantolen. Ar 23 Mehefin 2016 pleidleisiodd y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hwn yn ddigwyddiad dim addasu. Ar hyn o bryd, ni ellir amcangyfrif yn rhesymol effaith ariannol y digwyddiad hwn.

[29] Mae taliadau arbennig yn yr enghraifft hon yn cyfeirio at daliadau diswyddo arbennig a dalwyd i gyflogeion ac eraill sy'n uwch na'r gofynion statudol neu gytundebol arferol pan fyddant yn gadael cyflogaeth boed hynny pan fyddant yn ymddiswyddo, yn cael eu diswyddo neu'n dod i gytundeb i derfynu eu contract. Rhaid i daliadau diswyddo arbennig bob amser gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

**Atodiad 1**

# The Nursing and Midwifery Order 2001 (Form of Accounts) Determination 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001[30].

This determination has effect from 23rd February 2010.

**Interpretation**

1. In this Determination-

> “the accounts” means the accounts which it is the Council’s duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;
>
> “the Charities’ SoRP” means the “Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.
>
> “the Council” means the Nursing and Midwifery Council;
>
> “the FReM” means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

**Determination**

2. The accounts must-

> (a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council’s state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; and
>
> (b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

---

[30] O.S. 2002/253

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP; and

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council
Dated: 18th July 2011